



edexcel 

Unedau

Dyfarniadau Cyntaf BTEC

**Edexcel Lefel 2 BTEC Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig/
Diploma mewn Adeiladu**

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Gorffennaf 2011



Translated by: Steven Morris

Proofread by: Heini Gruffudd

Cynnwys

Uned 1:	Strwythur y Diwydiant Adeiladu	1
Uned 2:	Archwilio Iechyd, Diogelwch a Lles wrth Adeiladu	9
Uned 3:	Cynaliadwyedd yn y Diwydiant Adeiladu	15
Uned 4:	Defnyddio Gwyddoniaeth a Mathemateg wrth Adeiladu	21
Uned 5:	Prosesau a Gweithrediadau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Domestig Isel	29
Uned 6:	Dulliau a Thechnegau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Domestig Isel	35
Uned 7:	Technegau Lluniadu Adeilad	41
Uned 8:	Archwilio Gwaith Saer ac Asiedydd	47
Uned 9:	Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Asiedydd	51
Uned 10:	Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Saer	57
Uned 11:	Archwilio Gweithrediadau Trywel	63
Uned 12:	Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Bloc	69
Uned 13:	Cyflawni Gweithrediadau Bricwaith	75
Uned 14:	Archwilio Peintio ac Addurno	81
Uned 15:	Cyflawni Gweithrediadau Papuro	87
Uned 16:	Cyflawni Gweithrediadau Addurno	93
Uned 17:	Archwilio Technegau Gwasanaethau Adeilad mewn Adeiladu	99
Uned 18:	Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Plymwr	105
Uned 19:	Perfformio Gweithrediadau Trydanol	111
Uned 20:	Archwilio Gweithrediadau Plastro a Leinin Sych	117
Uned 21:	Archwilio Gweithrediadau Toi	123
Uned 22:	Archwilio Teilsio Wal a Theilsio Llawr	129

Uned 1: Strwythur y Diwydiant Adeiladu

Cod yr uned:	L/600/0029
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o amrywiaeth, cymhlethdod ac effaith diwydiant adeiladu'r DU ar ein bywydau yn ogystal â'r cyfraniad a wneir gan y rhai sy'n gweithio ynddo.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r diwydiant adeiladu yn sector pwysig o fewn economi'r DU ac yn chwarae rhan bwysig yn ein bywydau ni i gyd. Mae'n effeithio ar ble rydym yn byw, yn astudio ac yn gweithio, sut rydym yn teithio a hyd yn oed sut rydym yn treulio ein hamser hamdden. Mae'r uned hon yn edrych ar strwythur y diwydiant adeiladu, ei arwyddocâd economaidd a'r ystod eang o waith a wneir gan y diwydiant.

Mae'r sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig yn ffurfio rhan sylweddol o'n heconomi, o waith isadeiledd mawr fel traffyrdd, i ysbytai a thai. Mae'n ymdrin ag ystod amrywiol o weithgareddau, prosiectau, cyflogaeth a gwasanaethau gwahanol. Mae'r gweithgareddau hyn yn dechrau gydag elfen ddylunio prosiectau ac yn parhau trwy'r cyfnod adeiladu i ailwampio a chynnal a chadw.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu trosolwg o'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, o weithredwyr safle i benseiri. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall rolau a chyfrifoldebau swyddi unigol, ac yn archwilio datblygiad gyrfa nodweddiadol aelodau amrywiol o'r tîm dylunio ac adeiladu. Bydd y dysgwyr hefyd yn archwilio'r mathau amrywiol o gleientiaid sy'n defnyddio'r diwydiant, a'r amrediad o waith a gyflawnir ar eu rhan. Bydd dysgwyr yn dechrau sylweddoli bod cleientiaid yn amrywio o unigolion preifat sy'n defnyddio eu cyllid eu hunain, i'r llywodraeth genedlaethol sy'n defnyddio cyllid o drethi i gefnogi gwaith cyfalaf er lles y wlad gyfan.

Mae adeiladu'n sector sy'n tyfu o fewn llawer o wledydd sy'n datblygu. Mae adeileddau aml-lawr yn frith yn nenlinellau llawer o ddinasoedd. Roedd angen personél cymwys ac wedi'i hyfforddi i adeiladu pob un o'r adeileddau hyn. Mae llawer o bersonél cymwys y DU yn gweithio fel goruchwylwyr prosiect allweddol yn y gwaith unigryw a chymhleth yma. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Wedi cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth, y

ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt i gefnogi amrywiaeth o swyddi gwahanol yn y diwydiant adeiladu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall amrywiaeth a chymhlethdod y diwydiant adeiladu
- 2 Gwybod am y cyfraniad y mae'r diwydiant adeiladu yn ei wneud i'n lles cymdeithasol ac economaidd
- 3 Gwybod am adnoddau dynol yn y diwydiant adeiladu
- 4 Gwybod am yrfaeodd yn y diwydiant adeiladu.

Cynnwys yr uned

1 Deall amrywiaeth a chymhlethdod y diwydiant adeiladu

Meysydd gweithgaredd: adeiladu; pensaernïaeth; cynllunio; tirlfesur; peirianeg sifil ac adeiladu; peirianeg gwasanaethau adeiladu; eraill, ee peirianyddion rheoli ystadau, atgyweirio a chynnal a chadw, rheoli cyfleusterau, priffyrdd a llwybrau parhaol

Mathau o gleientiaid: preifat ee unigolion, masnachwyr unigol; cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus; llywodraeth, ee leol, rhanbarthol, canolog

Amrediad y gwaith a gyflawnir: ee preswyl, masnachol, adwerthol, adloniant, hamdden, diwydiannol, iechyd, addysgol, amaethyddol, cyfleustodau a gwasanaethau, adeiladau cyhoeddus, isadeiledd trafniadaeth

2 Gwybod am y cyfraniad y mae'r diwydiant adeiladu yn ei wneud i'n lles cymdeithasol ac economaidd

Yr economi adeiladu: manteision economaidd adeiladu; adfywio dinas fewnol; marchnad dai a chyfoeth o eiddo; cyfraniad i'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth; marchnadoedd; cyfraniad i'r economi lleol a chenedlaethol, ee safleoedd Olympaidd 2012

Yr economi cymdeithasol: manteision cymdeithasol adeiladu; diogelwch; gwerth ychwanegol; lleihau troseddu; estheteg; adnewyddiad trefol; safonau ansawdd; cyfrannu'n gymdeithasol i faterion lleol a chenedlaethol

3 Gwybod am adnoddau dynol yn y diwydiant adeiladu

Rolau a chyfrifoldebau aelodau o'r tîm adeiladu: cleient; pensaer; technegydd pensaernïol; syrfëwyr, ee syrfëwr meintiau, syrfëwr adeiladau, tirlfesurydd; clerc gwaith; rheolwyr, ee rheolwr contractau, rheolwr safle; swyddog diogelwch; crefftwyr; gweithredwyr cyffredinol; arall, ee amcangyfrifydd, prynwr, peirianyddion ymgynghorol, isgcontractwyr

Rhyngweithio ymhlith aelodau'r tîm: fframweithiau trefniadol syml (strwythurau 'o'r brig i lawr' a 'gwastad'); perthnasoedd uniongyrchol ac ochrol; perthnasoedd gwasanaeth a rheolwyr llinell; rhoi gwerth ar eraill, ee hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, darparu amgylchedd gwaith diogel, buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff

4 Gwybod am yrfaeodd yn y diwydiant adeiladu

Llwybrau gyrfa: proffesiynol; technegol; crefftus; gweithrediadol; trefniadau pontio ar gyfer dilyniant o alwedigaethau crefftus i dechnegol

Amrediad llwybrau gyrfaol proffesiynol: sefydliadau proffesiynol, ee CIOB, RICS, RIBA, ICE, CIBSE

Manteision llwybrau gyrfaol proffesiynol: dull proffesiynol; enw da; dysgu gydol oes; symud ymlaen; dyrchafiad; cyflogau; safle; swyddogaeth; perthnasoedd â chleientiaid

Hyfforddiant ac addysg: llwybrau, ee wrth gyflawni'r swydd a'r tu allan i'r gwaith, mynychu coleg, dysgu agored, dysgu o bellter, dysgu ar-lein; cymwysterau achrededig, ee prentisiaethau, diplomâu, tystysgrifau, graddau, cymwysterau proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus, cyrsiau byr sy'n berthnasol i ddatblygiadau newydd; trwyddedau ymarfer, ee cardiau CSCS, aelodaeth CORGI

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r amrediad o waith a gyflawnir gan y diwydiant adeiladu [YA1, YA2, YA4, YA6, MC2]	T1 gwahaniaethu rhwng y tri maes gweithgaredd sydd ynghlwm wrth brosiect adeiladu penodol o ran rolau a chyfrifoldebau	Rh1 gwerthuso'r math o waith a gomisiynir gan gleientiaid preifat, masnachol a llywodraethol
LI2 cymharu'r mathau o gleient sy'n defnyddio'r diwydiant adeiladu [YA1, YA2, YA4, YA6, MC1, MC2, DM6]		
LI3 disgrifio manteision cymdeithasol ac economaidd y diwydiant adeiladu mewn termau cenedlaethol a lleol [YA1, YA2, YA4, YA6, MC1, MC2, MC4, MC6, DM5]	T2 cymharu'r cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a wneir gan feysydd gwahanol yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig	
LI4 nodi'r personél sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu [YA2, YA4, YA6]	T3 esbonio sut gall gweithredwyr a chrefftwyr ddatblygu eu gyrfaoedd a symud ymlaen i rôl dechnegol neu broffesiynol mewn maes gweithgaredd penodol.	
LI5 disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r personél sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu [YA2, YA4, YA6]		
LI6 nodi'r cymwysterau, hyfforddiant a datblygiad sydd eu hangen i gefnogi gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu. [YA2, YA4, YA6]		
		Rh2 gwerthuso dau fframwaith trefniadol gwahanol o ran sut maent yn effeithio ar y rhyngweithio ymhlith aelodau o'r tîm adeiladu

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 2: Archwilio Iechyd, Diogelwch a Lles wrth Adeiladu

Cod yr uned:	J/600/0062
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o iechyd, diogelwch a lles yn y diwydiant adeiladu ac yn darparu cyfle i berfformio a defnyddio asesiadau risg.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'n hanfodol fod dysgwyr sy'n mynd i mewn i'r diwydiant adeiladu neu eisoes yn gweithio ynddo, yn deall materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac yn gallu gwneud eu gwaith yn ddiogel. Gall peryglon godi o'r peiriannau trwm a'r sylweddau a ddefnyddir, y tasgau a gyflawnir a'r ffordd mae pobl yn perfformio'r tasgau hyn. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau trefniadol iechyd a diogelwch i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain a phobl eraill. Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd newidiadau yn y diwydiant adeiladu gyda mwy o bwyslais ar sicrhau ac arddangos cymhwysedd. Os na chaiff risgiau eu rheoli'n ddigonol, mae mwy o debygolrwydd y bydd damweiniau anffodus a dianghenraid yn digwydd. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd sicrhau safonau da o ran iechyd a diogelwch a byddant yn ymgyswrtu â phrif rannau system reoli iechyd a diogelwch.

Er nad yw mor bwysig â cholli bywyd, gall damwain ddifrifol gael ôl-ffeithiau mawr i'r rhai dan sylw, eu teuluoedd a'u cydweithwyr. Yn ogystal â'r effaith ddynol, gall damweiniau gael effaith ariannol, effeithio ar linellau amser prosiectau a pheryglu dyfarnu unrhyw gytundebau yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i achosion nodweddiadol damweiniau ar y safle ac yn archwilio pryd i roi gwybod am ddamweiniau ac i bwy.

Ffactor allweddol o ran atal damweiniau yw sicrhau bod y risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i egwyddorion asesiadau risg ac yn datblygu gwybodaeth am dechnegau trwy gynnal asesiadau risg nodweddiadol.

Gall y rhain gynnwys sgiliau am nodi peryglon a risgiau; cynnal dadansoddiad risg; cofnodi a dadansoddi data; sgiliau cyfathrebu wrth gofnodi a defnyddio gwybodaeth. Bydd dysgwyr yn gallu nodi a disgrifio'r peryglon a'r risgiau sydd yn bresennol, adolygu mesurau rheoli sydd eisoes yn bodoli a lle bo angen, amlinellu rheolaethau pellach er mwyn lleihau'r risgiau'n fwy effeithiol.

Fel rhan o'r uned bydd dysgwyr yn ymgyswrtu ag ystadegau'r sector adeiladu a'r ymgyrchoedd a gynhelir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Disgwylir iddynt ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles berthnasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig
- 2 Gallu cynnal asesiadau risg
- 3 Deall pwysigrwydd mesurau rheoli mewn asesiad risg.

Cynnwys yr uned

1 Deall pwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig

Cyfrifoldebau cyfreithiol: rolau a chyfrifoldebau personél unigol (gan gynnwys rheolwyr, goruchwylwyr, cleientiaid, prif gontractwyr, contractwyr, gweithwyr) ar y safle ac oddi ar y safle, o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HASWA) a Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu 2007

Iechyd a diogelwch yn y gweithle: datganiadau polisi yn y gweithle; cyfrifoldebau a systemau gwaith diogel; yr angen am asesiadau risg

System reoli iechyd a diogelwch: ee polisi, trefniadaeth, cynllunio a gweithredu, monitro, adolygu, archwilio a chyfeirio at systemau rheoli, ee HS(G) 65, BS8800, ISO18001

Technegau monitro gweithredol a monitro adweithiol: esbonio pwysigrwydd monitro gweithredol ac adweithiol gan gyfeirio at HS(G) 65; trosolwg o dechnegau monitro gweithredol, ee arolygon diogelwch, teithiau diogelwch, cyfathrebu a hyfforddi; trosolwg o dechnegau monitro adweithiol, ee ymchwiliadau damweiniau

Gofynion cyfreithiol: gweithredu cyfreithiol gorfodol (yn gyffredinol) sy'n ofynnol gan gontractwr ar safle; dirwyon (cyffredinol) am beidio â chydymffurfio

2 Gallu cynnal asesiadau risg

Peryglon: ee peryglon ffisegol, amgylcheddol, cemegol, biolegol a seicogymdeithasol

Risgiau: nodi'r risgiau sy'n deillio o beryglon a nodwyd o ran peiriannau trwm; offer; peirianwaith a defnyddiau

Dulliau gweithio: newidiadau o ran dulliau gweithio

Newidiadau yn y gweithle: ee tymheredd, llwch, lleithder, lleoedd cyfyng, mynedfeydd ac allfeydd traffig

Ffactorau dynol: ee agwedd, hyfforddiant, cyfrifoldeb, profiad

Asesiadau risgiau: diben; eu nodweddion; defnydd ohonynt; mesurau rheoli, cyfraddau risgiau a dulliau asesu risg ansoddol a meintiol, deddfwriaeth gymwys berthnasol, ee Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Rheoli risg: hierarchaeth rheoli risg, diben; egwyddorion y rhain

3 Deall pwysigrwydd mesurau rheoli mewn asesiad risg

Hyfforddiant: enghreifftiau nodweddiadol o hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y diwydiant adeiladu; trafodaethau am flychau offer; CSCS, CSPS; CTIB; CIOB

Gweithdrefnau: systemau gwaith diogel ysgrifenedig; cyfarwyddiadau gweithio diogel; datganiadau dull; caniatâd i weithredu systemau

Cyfarpar diogelu: defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir (gan gynnwys het galed, esgidiau diogelwch, amddiffynwyr clustiau, sbectol diogelwch, amddiffyn resbiradol); cynnal a chadw a storio cyfarpar diogelu personol; cyfundrefnau adrodd ar gyfer cyfarpar diffygiol

Sylweddau: risgiau cysylltiedig ag amrediad o sylweddau; deddfwriaeth gyfredol berthnasol, ee Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith; asesiadau risg COSHH

Rhagofalon tân: damcaniaeth triongl tân; dosbarthiadau tanau; mathau o ddiffoddiaduron tân; dethol diffoddiaduron priodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol

Cadw tŷ da: man gwaith taclus gyda digon o le ar gyfer eich gwaith eich hun, y defnyddiau a ddefnyddir; storio defnyddiau'n ddiogel; cynnal llwybrau clir allanfeydd tân; osgoi llithro, baglu a chwympto ar y peryglon lefel

Gweithio ar uchder: ymwybyddiaeth o Reoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); mesurau rheoli; toeon bregus; symud defnyddiau i'w safleoedd

Gweithio o dan y ddaear: systemau cynnal ffosydd safonol

Lleoedd cyfyng: ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau Lleoedd Cyfyng; asesiadau risg lleoedd cyfyng; cymhwysedd; mesurau rheoli; trefniadau brys

Arwyddion diogelwch: nodi a gosod arwyddion diogelwch yn briodol; gwahaniaeth rhwng arwyddion gorfodol, rhybuddio, gwahardd a chynghori ar ddiogelwch

Peiriannau trwm, cyfarpar a pheirianwaith: arolygu a phrofi; gofyniad i weithredwr fod yn gymwys; systemau gwaith diogel; ymwybyddiaeth o ofynion Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER) a Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER)

Trydan a gwasanaethau o dan y ddaear/uwchben: defnyddio cyflenwad 110 folt ar safleoedd; canfod ceblau; codio lliw dethol folteddau 110V, 240V, 415V; arferion gweithio diogel wrth gloddio; arferion gweithio diogel wrth weithio'n agos i geblau uwchben; arferion gweithio diogel wrth weithio gydag offer llaw trydanol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu'r prif ddulliau a ddefnyddir i sicrhau safonau da o ran iechyd a diogelwch ar safle adeiladu [YA3, YA4]	T1 disgrifio sut mae ffactorau dynol a gweithle yn effeithio ar beryglon a risgiau ar safleoedd adeiladu	Rh1 dadansoddi sut mae newidiadau o ran dulliau gweithio'n effeithio ar beryglon a risgiau ar safleoedd adeiladu
LI2 nodi rolau a chyfrifoldebau personél perthnasol [YA3]		
LI3 nodi risgiau a pheryglon potensial mewn maes yn yr amgylchedd gwaith [YA3]		
LI4 cynnal asesiad risg [GT1]	T2 cysylltu casgliadau'r asesiad risg â'r mesurau rheoli a argymhellir.	Rh2 gwerthuso effaith yr asesiad risg ar weithwyr, ymwelwyr â safleoedd a'r cyhoedd.
LI5 esbonio sut mae mesurau rheoli'n cael eu defnyddio mewn gweithdrefnau asesiad risg. [YA1, GT1]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 3: Cynaliadwyedd yn y Diwydiant Adeiladu

Cod yr uned:	L/600/0063
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o gynaliadwyedd, yn archwilio sut mae cynaliadwyedd wedi'i integreiddio i brosiectau adeiladu ac yn ymchwilio i sut mae modd mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynaliadwyedd yn bwysig i'r sector adeiladau ac amgylchedd adeiledig modern am lawer o resymau gwahanol. Mae newidiadau byd-eang yn yr hinsawdd yn gosod her enfawr. Mae pen draw i danwydd ffosil fel olew a nwy fel adnoddau ac maent yn 'rhodd unwaith ac am byth' i'r ddynolryw. Unwaith y byddant wedi cael eu defnyddio i gyd, ni fydd byth modd cymryd eu lle ac mae'n rhaid i ni feddwl ar frys am ffyrdd newydd o ddarparu'r egni sydd ei angen arnom. Mae'n mynd yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r defnyddiau sydd eu hangen i adeiladu'r amgylchedd adeiledig. Mae'n rhaid i ni leihau'r gwastraff a'r llygredd a gynhyrchir gan y diwydiant adeiladu.

Mae cynaliadwyedd wedi cael ei ddiffinio fel 'bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain'. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gweithio yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig ailfeddwl am y ffordd maent yn dylunio, adeiladu, gweithredu ac yn rheoli'r amgylchedd adeiledig er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynaliadwyedd.

Er hynny, mae datblygu'r amgylchedd adeiledig yn hanfodol i anghenion pobl a chymunedau. Y disgwyl yw y bydd datblygu o'r fath yn digwydd yn awr gyda'r niwed lleiaf i'r amgylchedd naturiol. Felly, mae'n rhaid i'r sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig ddysgu creu cydbwysedd rhwng yr angen i ddatblygu'r amgylchedd adeiledig a'r angen i warchod yr amgylchedd naturiol, yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod hyd oes yr adeiladau a'r adeileddau eraill sy'n cael eu creu. Ni ellir cyflawni hyn ond trwy ddefnyddio amrediad eang o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yng nghyfnodau cynllunio, dylunio, cynhyrchu a chynnal a chadw'r broses adeiladu.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio cysyniad adeiladu cynaliadwy a sut mae'n ymwneud ag effaith yr amgylchedd adeiledig yn y presennol a'r dyfodol ar yr amgylchedd naturiol. Bydd dysgwyr yn archwilio materion fel lleihau gwastraff, rheoli llygredd, defnyddio adnoddau'n ofalus, gwarchod bywyd gwylt, fflora a ffawna a diogelu bioamrywiaeth.

Mae'r uned yn annog dysgwyr i ymchwilio i sut y gellir defnyddio technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy i fynd i'r afael â materion amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys manyleb cynhyrchion, defnyddiau a gwasanaethau sy'n gwneud y niwed lleiaf i'r amgylchedd o ran eu gweithgynhyrchu, eu cludo a'u hymgorffori yn yr amgylchedd adeiledig, y defnydd o ddyluniadau ecogyfeillgar, defnyddiau o darddiad lleol, gwell technegau rheoli a thechnoleg egni amgen. Ar ôl cwblhau'r uned hon, dylai dysgwyr allu defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd i gefnogi dull cynaliadwy o adeiladu yn yr amgylchedd adeiledig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall cysyniad cynaliadwyedd fel y mae'n cael ei ddefnyddio yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- 2 Gwybod am y materion sy'n effeithio ar ddatblygu amgylchedd adeiledig cynaliadwy
- 3 Gwybod sut y gall cynaliadwyedd fod o fudd i'r amgylchedd adeiledig yn lleol ac yn genedlaethol
- 4 Gwybod sut mae technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion amgylcheddol.

Cynnwys yr uned

1 Deall cysyniad cynaliadwyedd fel y mae'n cael ei ddefnyddio yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

Diffiniadau cynaliadwyedd: ystyr cynaliadwyedd mewn termau cymdeithasol, ffisegol, economaidd a chyffredinol

Perthnasedd cynaliadwyedd: adnoddau nad ydynt yn ddi-ben-draw; cynhesu byd-eang; capiau iâ'n toddi; lefelau'r môr yn codi; newid yn yr hinsawdd; llifogydd; prinderau; difodiant rhywogaethau; canlyniadau potensial lleihau bioamrywiaeth; anghenion cenedlaethau'r dyfodol; cyd-destun lleol a byd-eang; cydberthnasau ee effaith ar ddylunio a chynllunio adeiladu

2 Gwybod am y materion sy'n effeithio ar ddatblygu amgylchedd adeiledig cynaliadwy

Materion yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig: natur yr amgylchedd adeiledig (nodweddion arwyddocaol, yn awr ac yn y dyfodol); effaith yr amgylchedd adeiledig ar yr amgylchedd naturiol, ee lleol, cenedlaethol, yn awr ac yn y dyfodol; dyletswydd y diwydiant adeiladu i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ee diogelu, cynnal, gwella ac ehangu'r amgylchedd adeiledig heb niweidio'r amgylchedd naturiol

Materion cymdeithasol ac economaidd: bodloni anghenion lleol a chenedlaethol; gwell cyfleoedd busnes a chyflogaeth; datblygu sgiliau; effaith economaidd gadarnhaol, ee cyfrannu at y cynnyrch mewnwladol crynswth (GDP), adenillion ariannol ar ddatblygiadau, mwy o ffyniant; effaith gymdeithasol negyddol, ee gorddatblygu, llygredd

3 Gwybod sut y gall cynaliadwyedd fod o fudd i'r amgylchedd adeiledig yn lleol ac yn genedlaethol

Manteision lleol: cyflogaeth; manteision cymdeithasol; manau gwyrdd; estheteg; ymgynghori cymunedol; ymwneud yn lleol; gwell amgylcheddau; adfywio

Manteision cenedlaethol: awyr lanach; llai o lifogydd; addysg; cadw adnoddau; lles economaidd; diogelu'r amgylchedd; gwell safonau ansawdd; newid o ran addysg; manteision i'r llywodraeth; twristiaeth

4 Gwybod sut mae technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion amgylcheddol

Ffactorau sy'n dylanwadu: camau'r broses ddatblygu (cynllunio, dylunio ac adeiladu); ffactorau sy'n dylanwadu ar y camau hyn (ffisegol, technegol, ariannol, cyfreithiol ac esthetig); effeithiau ar yr amgylchedd naturiol ar bob cam

Parchu'r amgylchedd naturiol: nodau ac amcanion cyffredinol; lleihau gwastraff; lleihau llygredd; rheoli cyfradd defnyddio adnoddau gwerthfawr; gwarchod asedau naturiol; gwarchod bywyd gwylt, fflora a ffawna; diogelu bioamrywiaeth

Adeiladu cynaliadwy: technegau, ee dyluniad ecogyfeillgar, manyleb defnyddiau tarddiad lleol, gwell rheolaeth ar y safle, gwell rheolaeth ar adnoddau, gwell rheolaeth ar wastraff, adfer ac ailgylchu, technoleg ynni amgen

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio ystyr cynaliadwyedd [YA1, YA2, DM6]	T1 asesu manteision ystyried materion yn ymwneud â chynnaladwyedd yn yr amgylchedd adeiledig	Rh1 gwerthuso canlyniadau peidio ag ystyried materion yn ymwneud â chynnaladwyedd yn yr amgylchedd adeiledig
LI2 esbonio perthnasedd cynaliadwyedd i'r sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig [YA1, YA2, YA3, YA4, YA6, MC2, DM6]		
LI3 nodi'r materion a gysylltir â darparu amgylchedd adeiledig cynaliadwy [YA2, YA4, YA6]		
LI4 disgrifio'r materion a gysylltir â darparu amgylchedd adeiledig cynaliadwy [YA2, YA4, YA6]		
LI5 nodi manteision defnyddio adeiladu cynaliadwy, mewn termau lleol a chenedlaethol [YA2, YA4, YA6]	T2 cymharu manteision lleol a chenedlaethol adeiladu cynaliadwy mewn termau cymdeithasol ac economaidd	Rh2 cyfiawnhau dethol adeiladu cynaliadwy penodol o ran effeithiolrwydd a chost cymharol.
LI6 disgrifio manteision defnyddio adeiladu cynaliadwy, mewn termau lleol a chenedlaethol [YA2, YA4, YA6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI7 nodi'r technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy a ddefnyddir i leihau effaith amgylcheddol [YA2, YA4, YA6]</p>	<p>T3 gwerthuso effeithiolrwydd technegau adeiladu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses ddatblygu.</p>	
<p>LI8 disgrifio'r technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy a ddefnyddir i leihau effaith amgylcheddol. [YA2, YA4, YA6]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 4: Defnyddio Gwyddoniaeth a Mathemateg wrth Adeiladu

Cod yr uned:	R/600/0064
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddeall y wyddoniaeth a'r fathemateg a ddefnyddir gan weithwyr adeiladu. Mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau mathemategol a gwyddonol sydd eu hangen i ddatrys amrywiaeth o broblemau adeiladu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r diwydiant adeiladu modern yn gofyn am lawer mwy gan ei weithlu na'r gallu i gyflawni sgiliau crefft ymarferol mewn modd cymwys. Mae'r sgiliau hyn yn hynod o bwysig, ond nid ydynt yn ddigon ar eu pennau eu hunain. Mae gwyddoniaeth a mathemateg yn sail i lawer o weithgareddau yn y byd modern, ac mae hyn yr un mor wir yn achos adeiladu ag ar gyfer unrhyw weithgaredd arall.

Er mwyn gallu nodi'r defnyddiau cywir ar gyfer tasg benodol, a gwybod sut i ymgorffori'r defnyddiau hyn yn nyluniad adeiladu, bydd angen i'r dysgwyr ddeall yr egwyddorion gwyddonol sylfaenol sy'n effeithio ar berfformiad defnyddiau adeiladu. Rhaid i bobl sy'n gweithio ym maes adeiladu allu cyflawni amrediad eang o gyfrifiadau mathemategol sydd, er enghraifft, yn ymwneud â dimensiynau, arwynebedd, cyfaint, symiau a chost defnyddiau, a bod yn hyderus bod eu hatebion yn gywir.

Dyluniwyd cynnwys yr uned i ganolbwyntio'n benodol ar gysyniadau a fydd yn amlwg yn ddefnyddiol i ddysgwyr, a hynny ar unwaith. Bydd hyn yn eu galluogi i werthfawrogi pwysigrwydd y cysyniadau hyn i'r diwydiant adeiladu, a'i gwneud yn haws iddynt eu defnyddio mewn cyd-destun galwedigaethol eang.

Yn benodol, caiff y dysgwyr gyfle i ymchwilio i effeithiau grymoedd sy'n gweithredu ar adeileddau a defnyddiau, ac i archwilio sut gall newid mewn tymheredd ddylanwadu ar ddyluniad a manyleb adeiladau. Mae'r uned hon hefyd yn cyflwyno technegau mathemategol sylfaenol y mae eu hangen i gyflawni cyfrifiadau syml sy'n ymwneud â thasgau cyffredin megis amlinellu, rheoli dimensiynol, pennu

symiau defnyddiau a chyfrifo arwynebedd tir.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall natur grymoedd a'u heffaith ar ddefnyddiau adeiladu
- 2 Deall sut mae newidiadau mewn tymheredd yn effeithio ar ddefnyddiau adeiladu
- 3 Gallu defnyddio fformiwlâu syml i ddatrys problemau adeiladu
- 4 Gallu defnyddio trigonometreg syml a dulliau graffigol i ddatrys problemau adeiladu.

Cynnwys yr uned

1 Deall natur grymoedd a'u heffaith ar ddefnyddiau adeiladu

Egwyddorion: y berthynas rhwng màs, dwysedd a chyfaint; llwytho o ganlyniad i atyniad disgyrchol; y berthynas rhwng grym (llwyth), màs a chyflymiad oherwydd disgyrchiant; adweithiau fel llwyth cyfartal a dirgroes; defnyddio egwyddorion momentau i bennu adweithiau syml ar gyfer llwythi pwynt yn unig; deddf Hooke; diriant; straen; modwlws elastigedd; ffactor diogelwch; cyfrifiadau syml sy'n ymwneud â'r uchod

Effaith grymoedd ar ddefnyddiau adeiladu mewn defnydd cyffredinol: defnyddiau adeiladu nodweddiadol (dur, concrit, brics, aloeon alwminiwm, gwydr, plastig, eraill); nodweddion allweddol (cryfder, anhyblygrwydd, pwysau, eraill); diriant (cywasgiad, tynnol, croeswasgu, plygiannol); newid siâp wrth lwytho

2 Deall sut mae newidiadau mewn tymheredd yn effeithio ar ddefnyddiau adeiladu

Egwyddorion: newidiadau mewn cyflwr; gwres synhwyaidd; effaith oeri anweddiad; ehangu a chyfangu (gan gynnwys ehangiad dŵr wrth rewi ac effaith hyn ar ddefnyddiau adeiladu mandyllog); cyfernodau ehangiad thermol ar gyfer defnyddiau adeiladu a ddefnyddir yn gyffredin; cyfrifiadau syml sy'n ymwneud â'r uchod

3 Gallu defnyddio fformiwlâu i ddatrys problemau adeiladu

Fformiwlâu: arwynebedd a chyfaint arferol ee sgwâr, petryal, triongl, trapesiwm, cylch, ciwb a silindr; defnyddio canrannau, ee i addasu symiau a chostau defnyddiau, trosi cyfrannau cymysgu mortar a concrit yn ôl cyfaint er mwyn cymysgu cyfrannau yn ôl pwysau

Trawsddodi fformiwlâu: technegau syml i newid pwnc fformiwlâ (dim mwy na phedwar newidyn, dim mwy cymhleth na phedwar cam rhifyddol sylfaenol a sgwâr neu ail isradd)

Gwerthuso fformiwlâu: pennu gwerth rhifiadol fformiwlâ (hyd at bedwar newidyn, hyd at bedwar cam rhifyddol sylfaenol a sgwâr ac ail isradd)

Cymwysiadau adeiladu ymarferol: technegau mesureg (i bennu hyd, arwynebedd, cyfaint, symiau defnyddiau a chostau cysylltiedig); addasiadau i symiau (ar gyfer torri, gwastraff, toriadau a threthi cyfredol perthnasol, ee Treth ar Werth (TAW))

4 Defnyddio trigonometreg syml a dulliau graffigol i ddatrys problemau adeiladu

Trigonometreg: Theorem Pythagoras a thriongl 3, 4, 5; diffiniad sin, cosin a thangiad; cyfrifiadau syml yn ymwneud â datrys trionglau sgwaronglog

Dulliau graffigol: Cyfesurynnau Cartesaidd; graffiau llinell syth (plotio, pennu graddiannau a rhyngdoriadau, rhyngosodiad ac allosodiad)

Cymwysiadau adeiladu ymarferol: cyfrifiadau'n ymwneud, er enghraifft, â dylunio grisiau; toeon ar ongl, amlinellu a rheolaeth ddimensiynol, gwirio am onglau sgwâr, aliniad llorweddol, aliniad fertigol a sgwaredd; defnyddio graffiau i ragfynegi a rhyngosod gwerthoedd; manwl gywirdeb cyfrifiadau; defnyddio brasamcan i wirio cyfrifiad; effeithiau talgrynnu cyfeiliornadau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi effeithiau grymoedd ar adeileddau o ran egwyddorion gwyddonol sylfaenol [YA1, YA2, YA4, YA6, DM4, DM5, GT1, GT2]</p>	<p>T1 trafod y gwahaniaethau rhwng y materion a godir gan effaith llwyth ar newid siâp</p>	<p>Rh1 gwerthuso dau ddefnydd adeiladu cyferbyniol a ddefnyddir yn gyffredin, o ran eu hymddygiad o dan lwyth a'u hymateb i newid mewn tymheredd</p>
<p>LI2 esbonio effeithiau grymoedd ar adeileddau gan ddefnyddio cyfrifiadau ategol fel sy'n briodol [YA1, YA2, YA4, YA6, DM4, DM5, GT1, GT2]</p>		
<p>LI3 nodi effeithiau newidiadau tymheredd ar ddefnyddiau adeiladu o ran egwyddorion gwyddonol sylfaenol [YA1, YA2, YA4, YA6, DM4, DM5, GT1, GT2]</p>	<p>T2 trafod sut gall dŵr niweidio defnyddiau adeiladu mandyllog pan fydd y tymheredd yn disgyn yn is na rhewbwynt dŵr</p>	
<p>LI4 esbonio effeithiau newidiadau tymheredd ar ddefnyddiau adeiladu, gan ddefnyddio cyfrifiadau ategol fel sy'n briodol [YA1, YA2, YA4, YA6, DM4, DM5, GT1, GT2]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 datrys dwy broblem adeiladu ymarferol wahanol [YA1, YA2, YA4, YA6, DM2, DM3, DM4, DM5]</p>	<p>T3 datrys problem adeiladu yn defnyddio dulliau trigonometrig ac algebraidd.</p>	<p>Rh2 asesu datrysiadau i'r problemau adeiladu ymarferol o ran cywirdeb, brasamcan a thalgrynnu gwallau.</p>
<p>LI6 datrys dwy broblem adeiladu ymarferol wahanol, un gyda thrigonometreg a'r llall gan ddefnyddio dulliau graffigol. [YA1, YA2, YA4, YA6, DM2, DM3, DM4, DM5]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 5: Prosesau a Gweithrediadau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Domestig Isel

Cod yr uned:	D/600/0066
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i wybod am y prosesau a'r gweithrediadau a ddefnyddir mewn adeiladu isel, dilyniannu gwaith adeiladu a sut mae priodweddau defnyddiau adeiladu'n effeithio ar eu manyleb a'u defnydd.

Cyflwyniad i'r uned

Mae meddu ar ddealltwriaeth o'r agweddau ymarferol sy'n rhan o godi adeiladau yn hanfodol ar gyfer bron pob swydd yn y diwydiant adeiladu. P'un a ydych yn gweithio fel goruchwylydd, rheolwr, dylunydd neu gynlluniwr, bydd angen bob amser i chi wybod rhywbeth am y prosesau a'r gweithrediadau a ddefnyddir i godi adeiladau, a'r rhan sydd gan bob un i'w chwarae mewn prosiect adeiladu.

Mae'r uned hon yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr ynghylch y prosesau a'r gweithrediadau ymarferol sy'n rhan o godi adeiladau domestig isel. Bydd cyfraniadau'r prif grefftiau adeiladu, a sut maent yn ymwneud â'r broses yn gyffredinol, hefyd yn cael eu harchwilio.

Bydd dysgwyr yn astudio prosesau a gweithrediadau yng nghyd-destun technegau adeiladu traddodiadol a modern ac yn datblygu ymwybyddiaeth o oblygiadau pob un. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae prosesau gweithgynhyrchu modern oddi ar y safle yn dylanwadu ar brosesau a gweithrediadau ar y safle.

Mae'r uned hon hefyd yn cynnig cyfle i ddysgwyr archwilio dilyniannu cywir gweithgareddau adeiladu a'r technegau cynllunio syml sy'n rhan o hynny. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae gwahanol brosesau a gweithrediadau prosiect yn cael eu hintegreiddio o fewn ffrâm amser y prosiect.

Bydd y dysgwyr hefyd yn astudio gweithgareddau ymarferol cysylltiedig ag adeiladu, gan eu galluogi i ymgyswrtu â defnyddiau naturiol, sydd wedi eu prosesu a'u gweithgynhyrchu er mwyn eu defnyddio'n gyffredinol wrth adeiladu, ynghyd â'r nodweddion sy'n eu gwneud yn addas i'w defnyddio mewn elfen benodol o adeilad.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am gamau prosiect adeiladu a phwysigrwydd cynllunio da a dilyniannu gwaith adeiladu
- 2 Gwybod am y prosesau a'r gweithrediadau traddodiadol a modern a ddefnyddir mewn adeiladu domestig isel
- 3 Deall priodweddau defnyddiau adeiladu naturiol, wedi'u prosesu a'u gweithgynhyrchu, a'r defnydd ohonynt.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am gamau prosiect adeiladu a phwysigrwydd cynllunio da a dilyniannu gwaith adeiladu

Camau adeiladu: paratoi'r safle; gwaith llawr; isadeiledd; aradeiledd; gwasanaethau; gorffeniadau; gwaith allanol

Gweithrediadau: gweithgareddau allweddol (gosod brics; gwaith saer ac asiedydd; toi); gweithgareddau eraill, ee peintio ac addurno, gwaith llawr, gwaith concrit, gwaith maen, plastro, gwaith plymwr, gosod gwaith trydanol

Dilyniannu a chynllunio: trefn briodol a rhesymegol gweithrediadau crefftau ar y safle; dogfennaeth gynllunio gysylltiedig (gan gynnwys defnyddio siartiau bar a Gantt); problemau cynhyrchu a achosir gan gynllunio neu ddilyniannu gwaith yn amhriodol; effaith problemau cynhyrchu a digwyddiadau anrhagweledig ar gynhyrchedd a chost, ee prinder defnyddiau, tywydd gwael, damweiniau ar y safle, gweithredu diwydiannol, fandaliaeth, llifogydd neu gwypmp prif ffos

2 Gwybod am y prosesau a'r gweithrediadau traddodiadol a modern a ddefnyddir mewn adeiladu domestig isel

Gofynion swyddogaethol elfennau adeiladau domestig isel: prif elfennau a'u swyddogaethau (sylfeini, lloriau, waliau, toeon, drysau, ffenestri, grisiau, gwasanaethau), integreiddio elfennau i godi adeilad

Adeiladu traddodiadol: nodweddion allweddol (unedau ar wahân, dyluniadau ac arddulliau unigol, waliau cynnal pwysau, parwydydd mewnol sefydlog, gweithrediadau crefftau ar y safle, dulliau llafur-ddwys o weithio)

Adeiladu modern: nodweddion allweddol (cyfadeiladau mawr, systemau modiwlaid, cydgysylltu dimensiynol mwy, fframiau cynnal pwysau, murlenni nad ydynt yn cynnal pwysau, parwydydd mewnol ysgafn dros dro, gwasanaethau sy'n fwyfwy soffistigedig, gofyniad am weithlu â sgiliau gwahanol, cynhyrchu oddi ar y safle, cydosod ar y safle), effaith ar gynhyrchu cydrannau, elfennau a defnyddiau oddi ar y safle ar gynhyrchedd a chostau ar y safle

3 Deall priodweddau defnyddiau adeiladu naturiol, wedi'u prosesu a'u gweithgynhyrchu, a'r defnydd ohonynt

Defnyddiau cyffredin: defnyddiau naturiol (cerrig, pren); defnyddiau wedi'u prosesu (concrit, brics, metelau, aloeon, cynnyrch pren); defnyddiau wedi'u gweithgynhyrchu (sment, calch, plastig, paent)

Defnyddiau a phriodweddau defnyddiau: manyleb defnyddiau priodol; priodweddau sy'n gwneud defnyddiau penodol yn addas at ddibenion penodol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi camau prosiect adeiladu [YA2]		
LI2 disgrifio camau prosiect adeiladu [YA2, YA4]		
LI3 nodi'r gweithrediadau crefftau sydd ynghlwm wrth bob cam [YA2]		
LI4 disgrifio'r gweithrediadau crefftau sydd ynghlwm wrth bob cam [YA2, YA4]		
LI5 amlinellu pam mae'n rhaid cyflawni gweithrediadau crefftau mewn dilyniant rhesymegol [YA3, YA4, YA6, DM6]	T1 dehongli siartiau Gantt syml sy'n ymwneud â dilyniant rhesymegol gweithrediadau crefftau ar gyfer adeilad domestig isel	Rh1 rhagfynegi effaith problemau cynhyrchu a achosir gan gynllunio a/neu ddilyniannu gwael y gwaith adeiladu ar gyfer adeilad isel
LI6 disgrifio'r ddogfennaeth safonol a ddefnyddir i gefnogi cynllunio a dilyniannu gwaith adeiladu [YA2, YA4]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI7 nodi prif anghenion swyddogaethol adeiladau domestig isel [YA2]	T2 cymharu gweithrediadau a phrosesau adeiladu traddodiadol a modern o ran cynhyrchedd a chostau cyffredinol	
LI8 disgrifio'r prosesau a'r gweithrediadau a ddefnyddir mewn dulliau adeiladu traddodiadol [YA2, YA4]		
LI9 disgrifio'r prosesau a'r gweithrediadau a ddefnyddir mewn dulliau adeiladu modern [YA2, YA4]		
LI10 dosbarthu defnyddiau adeiladu fel rhai naturiol, wedi'u prosesu neu wedi'u gweithgynhyrchu [YA3, YA4, YA6, MC4]	T3 esbonio sut mae priodweddau defnyddiau adeiladu'n pennu'r defnydd a wneir ohonynt.	Rh2 cyfiawnhau nodi dau ddefnydd adeiladu gwahanol i'w defnyddio mewn dwy sefyllfa wahanol.
LI11 asesu priodweddau defnyddiau adeiladu cyffredin. [YA3, YA4, YA6, MC4]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 6: Dulliau a Thechnegau Adeiladu ar gyfer Adeiladau Domestig Isel

Cod yr uned:	H/600/0067
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddysgwyr am y dulliau a'r technegau ynghlwm wrth y gwahanol gamau wrth godi adeiladau domestig isel.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r broses adeiladu yn seiliedig yn gadarn ar waith tîm, ac mae llwyddiant y diwydiant yn dibynnu ar y sgiliau gwahanol a ddarperir gan amrediad eang o unigolion - gan gynnwys dylunwyr, cynllunwyr a rheolwyr, ynghyd â'r rhai sy'n ymwneud â galwedigaethau crefftau ymarferol. Mae meddu ar ddealltwriaeth o ffurfiau adeileddol modern gwahanol a mathau a swyddogaethau amrywiol yr elfennau sy'n rhan o adeiladau, yn ofyniad hanfodol ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes adeiladu.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i gasglu gwybodaeth a dod i ddeall y ffurfiau adeileddol modern gwahanol a ddefnyddir wrth adeiladu tai, fflatiau a fflatiau deulawr, ynghyd â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng swyddogaeth adeilad, swyddogaeth yr elfennau sy'n rhan o'r adeilad, a'r ffurf adeileddol derfynol.

Trwy gydol yr uned hon, bydd dysgwyr yn ehangu ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy archwilio gweithgareddau rhagadeiladu fel archwilio safleoedd, tirfesur, paratoi safle, dymchwel arbenigol ac ystyriaethau amgylcheddol. Hefyd, byddant yn archwilio'r isadeiledd (o dan y ddaear), aradeiledd (uwchben lefel y ddaear) a chyfnodau gwaith allanol prosiectau, ynghyd â'u helfennau perthynol.

Bydd dysgwyr yn gallu archwilio sut mae elfennau adeiladu newydd yn cael eu ffurfio a sut mae'r elfennau hyn yn cael eu cyfuno i gynhyrchu'r adeiledd terfynol ac yn ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob agwedd ar yr adeiladu. Hefyd bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r trefniadau dros dro ar y safle sydd eu hangen i gefnogi'r broses adeiladu. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae hyn yn cael effaith ar lefel leol a chenedlaethol. Hefyd byddant yn dysgu sut y darperir cyfleustodau sylfaenol fel dŵr, trydan a draeniad i adeilad. Rhoddir pwyslais ar faterion iechyd, diogelwch a lles trwy'r uned i gyd.

Caiff dulliau adeiladu traddodiadol a modern eu harchwilio a'u cymharu, yn enwedig o ran y defnydd o egwyddorion cynaliadwyedd modern.

Wedi cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr yn gallu defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd ganddynt yn sail ar gyfer ystod eang o swyddi adeiladu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall y berthynas rhwng swyddogaethau adeilad a'i elfennau
- 2 Gwybod y dulliau a'r technegau a gysylltir â gwaith rhagadeiladu, gwaith llawr, isadeiledd a gwaith allanol ar gyfer adeiladau isel
- 3 Deall y dulliau a'r technegau a ddefnyddir wrth adeiladu aradeileddau ar gyfer adeiladau domestig isel.

Cynnwys yr uned

1 Deall y berthynas rhwng swyddogaethau adeilad a'i elfennau

Swyddogaethau ac elfennau adeiladau: swyddogaethau dyluniadau a nodweddion perfformiad (cryfder, sefydlogrwydd, amddiffyn rhag yr hinsawdd, gwydnwch, y gallu i wrthsefyll tân, inswleiddio thermol, inswleiddio sain, cynaliadwyedd)

Ffuriau adeileddol cyffredin ar gyfer dulliau adeiladu isel: y berthynas rhwng swyddogaeth adeilad a'i ffurf adeileddol; ffurfiau adeileddol cyffredin (traddodiadol, croesfur, ysgerbydol, ffrâm gan gynnwys dulliau adeiladu newydd); manteision ac anfanteision pob un o ran dyluniad ac adeiladu

Gwasanaethau sylfaenol: dŵr; nwy; trydan; draeniad

2 Gwybod y dulliau a'r technegau a gysylltir â gwaith rhagadeiladu, gwaith llawr, isadeiledd a gwaith allanol ar gyfer adeiladau isel

Gwaith rhagadeiladu: tirlfesur; archwilio'r safle; diogelwch safle; dymchwel gan gontractwyr arbenigol; ystyriaethau amgylcheddol a chynladwyedd; materion iechyd, diogelwch a lles

Gwaith llawr: rheoli dŵr isbridd a dŵr wyneb dros dro wrth gloddio (pwmpio swmp syml, systemau pwyntiau ffynhonnau); rheoli dŵr isbridd yn barhaol (draeniad tir); materion iechyd, diogelwch a lles a gysylltir â chloddio (diogelu personél ar y safle a'r cyhoedd)

Isadeileddau: sylfeini (lleiniau traddodiadol, lleiniau dwfn neu lenwi ffosydd, pad wedi'i ynysu, rafft, pileri twll dwfn); dethol sylfeini priodol ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau tir; dylunio ac adeiladu lloriau daear (solet, crog); materion iechyd, diogelwch a lles

Gwaith allanol: ffyrdd ystadau, ffyrdd mynediad a dreifiau; llwybrau

3 Deall y dulliau a'r technegau a ddefnyddir wrth adeiladu aradeileddau ar gyfer adeiladau domestig isel

Aradeileddau: elfennau adeilad (waliau, lloriau, toeon, eraill); agweddau diogelwch y rhain

Mathau o waliau: gwaith maen solet; gwaith maen ceudod; ffrâm bren; parwydydd mewnol, dewisiadau modern

Lloriau: dylunio ac adeiladu lloriau crog o bren a choncrit

Toeon: gwastad; ar oleddf; un-codiad; dau oleddf; talcen; talcendo

Dulliau a thechnegau adeiladu modern a thraddodiadol: o ran peiriannau adeiladu; modiwlleiddio; cynhyrchu oddi ar y safle; gofynion o ran llafur, effaith ar gynladwyedd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 cymharu tair enghraifft o ffurfiau adeileddol a ddefnyddir wrth godi adeiladau domestig isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p> <p>LI2 asesu prif swyddogaethau adeiladau a'u helfennau [YA3, YA4, YA6, DM6]</p> <p>LI3 disgrifio'r gwasanaethau sylfaenol a ddarperir ar gyfer prosiectau adeiladu isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p>	<p>T1 esbonio sut mae elfennau adeiladu a gwasanaethau sylfaenol yn cael eu hintegreiddio i adeiladau domestig isel</p>	<p>Rh1 gwerthuso adeilad domestig isel modern o ran sut mae'r ffurf adeileddol yn ymdrin â swyddogaeth dyluniad bwriedig yr adeilad</p>
<p>LI4 disgrifio'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yn ystod camau rhagadeiladu a gwaith llawr prosiectau adeiladu domestig isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p> <p>LI5 disgrifio'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yng ngham isadeiledd prosiectau adeiladu domestig isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p>	<p>T2 cymharu'r dulliau a'r technegau gwahanol a ddefnyddir yn y gwaith rhagadeiladu, llawr, isadeiledd ac allanol ar gyfer adeilad domestig isel</p>	<p>Rh2 gwerthuso dau ddull a thechneg adeiladu penodol o ran eu cyfraniad i'r pefformiad-wrth-ddefnydd mewn adeilad isel.</p>
<p>LI6 disgrifio darparu gwaith allanol i adeiladau domestig isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p>	<p>T3 asesu'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir wrth adeiladu'r aradeiledd o ran eu cyfaddasrwydd ar gyfer dulliau adeiladu modern.</p>	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI7 nodi'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir yng ngham aradeiledd prosiectau adeiladu domestig isel [YA3, YA4, YA6, DM6]</p>		
<p>LI8 nodir manteision ac anfanteision dulliau adeiladu traddodiadol a modern. [YA3, YA4, YA6, DM6]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 7: Technegau Lluniadu Adeilad

Cod yr uned:	K/600/0068
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i wybod am y lluniadau, yr offer lluniadu, y defnyddiau, y safonau a'r confensiynau a ddefnyddir mewn lluniad adeilad. Hefyd, mae'r uned yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau braslunio a lluniadu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae lluniadu adeilad, ynghyd â'r gair ysgrifenedig, yn un o'r prif ddulliau o gyfleu gwybodaeth yn y diwydiant adeiladu. Gall lluniadau adeilad helpu i droi syniad yn realiti a chynnig modd clir, cywir a chyfleus o gyfleu gwybodaeth adeiladu. Dyluniwyd yr uned hon i ddarparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol angenrheidiol i ddysgwyr gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad syml gan ddefnyddio technegau lluniadu â llaw.

I gychwyn bydd y dysgwyr yn archwilio'r mathau gwahanol o lluniadau a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu, ac yn archwilio diben pob un ohonynt. Yn dilyn hyn bydd cyflwyniad i'r adnoddau y mae eu hangen i gynhyrchu'r lluniadau hyn. Bydd dysgwyr yn ymgysgu'rwyddo â'r offer a'r defnyddiau lluniadu a ddefnyddir yn gyffredin a byddant yn datblygu dealltwriaeth o'r offer a'r papur sydd eu hangen i gyflawni tasgau lluniadau penodol.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i archwilio safonau a chonfensiynau lluniadu a ddefnyddir yn gyffredin. Byddant yn dysgu am y graddfeydd, y croeslinellu, llinellau, dimensiynau, anodiadau a'r dulliau tafluniadol a ddefnyddir mewn lluniadau adeiladu.

Y ffordd orau o ddysgu lluniadu adeilad yw ymarfer technegau lluniadu adeilad a dyna'r hyn y bydd y dysgwyr yn ei wneud. Bydd ganddynt y cyfle i ddatblygu sgiliau mewn cynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad gan ddefnyddio technegau, confensiynau a safonau perthnasol. Prif ganolbwynt yr uned yw datblygu technegau braslunio a lluniadu adeilad yn hytrach nag ystyriaethau dylunio fel y defnydd o ofod. Gall gwybodaeth a dealltwriaeth o'r olaf ddilyn, efallai mewn uned arall, wedi iddynt ddatblygu'r sgiliau lluniadu angenrheidiol i ddarparu sylfaen ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth o'r fath yn llawnach.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod y mathau gwahanol o luniadau a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu
- 2 Gwybod am yr offer a'r defnyddiau lluniadau a ddefnyddir i gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad
- 3 Gallu cymhwyso safonau a chonfensiynau lluniadu adeiladu i gynhyrchu brasluniau a lluniadau gweithio.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod y mathau gwahanol o luniadau a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu

Mathau o luniadau: lleoliad; cydosod; cydrannau; cyflwyno; braslun; lluniadau gweithio

Diben pob math: mae lluniadau lleoliad yn dangos lleoliad adeiladau ar y safle; mae lluniadau cydosod yn dangos sut caiff rhywbeth ei roi at ei gilydd; mae lluniadau cydrannau yn dangos manylion cydrannau unigol megis ffenestri, drysau, grisiau ac unedau cegin wedi eu ffitio; mae lluniadau cyflwyno yn cyfleu gwybodaeth i'r cleient; mae brasluniau yn lluniadau llawrydd sylfaenol yn ôl graddfa fras; mae lluniadau gweithio yn dangos sut i godi adeiladau ac adeileddau eraill

2 Gwybod am yr offer a'r defnyddiau lluniadau a ddefnyddir i gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad

Offer: ee pensil, ysgrifbin, cwmpawdau, sgwaryn cymwysadwy, rwber, bwrdd lluniadu, riwl raddfa, cwmpas mesur, onglydd, templedi tro, stensiliau

Defnyddiau: papur; cyfryngau

Papur: papur manylion; papur cetris; papur dargopïo; meintiau papur (A0, A1, A2, A3, A4)

Cyfryngau: pensiliau (HB, H, 2H); pinnau (0.2–0.25 mm ac 0.4–0.5 mm) ac inc

3 Gallu cymhwyso safonau a chonfensiynau lluniadu adeiladu i gynhyrchu brasluniau a lluniadau gweithio

Safonau: Arfer Lluniadu Adeilad, BS1192 Rhan 5

Confensiynau: graddfeydd; croeslinellu; llinellau; dimensiynau; anodiad; bloc teitl; dulliau tafluniadol

Graddfeydd: ee 1:1, 1:2, 1:5, 1:10, 1:20, 1:50, 1:100, 1:1250, 1:2500

Croeslinellu: bricwaith; blocwaith; concrit; maen; pridd/daear; pren; pren haenog; craidd caled; inswleiddio

Llinellau: llinellau canol; llinellau grid; llinellau torri; llinellau trychiad; amlinellau; llinellau dimensiwn; manylion cudd

Dimensiynau: modiwlaidd; rhedeg; ar gyfer cydgysylltu; ar gyfer gwaith meintiau

Anodiad: priflythrennau bras; llythrennau bach

Bloc teitl: teitl lluniadu; rhif lluniadu; rhif adolygu; graddfa; dyddiad; lluniadwyd gan; nodiadau

Dulliau tafluniadol: orthograffig

Brasluniau a lluniadau adeiladu: cynlluniau; golygon; trychluniau; manylion

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r mathau gwahanol o luniadau a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu [YA4]	T1 cysylltu math a diben lluniadau penodol â'r offer, defnyddiau, safonau a chonfensiynau lluniadau a ddefnyddir i'w cynhyrchu	Rh1 gwerthuso amrediad o wahanol fathau o luniadau penodol o ran manteision canfyddadwy a chostau cymharol adnoddau a thechnegau a ddefnyddir i gynhyrchu lluniadau
LI2 disgrifio diben y mathau gwahanol o luniadau a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu [YA4]		
LI3 nodi'r prif eitemau o offer lluniadu a ddefnyddir i gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad [YA4]		
LI4 nodi'r defnyddiau gwahanol a ddefnyddir i gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad [YA4]		
LI5 dethol yr offer a'r defnyddiau sydd eu hangen i gynhyrchu brasluniau a lluniadau adeilad penodol [YA4, YA6]		
LI6 nodi'r safonau a'r confensiynau lluniadau adeilad a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu [YA4]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI7 cymhwyso safonau a chonfensiynau lluniadu adeilad i gynhyrchu brasluniau a lluniadau gweithio. [MC5, DM2, DM3, DM4, DM5, HR2, HR3]</p>	<p>T2 cynhyrchu portffolio o frasluniau a lluniadau, gyda gwaith sy'n ddestlus ac wedi'i luniadu wrth raddfa.</p>	<p>Rh2 cynhyrchu portffolio o frasluniau a lluniadau, gyda gwaith sy'n ddestlus, yn drachywir, yn gywir yn dechnegol ac wedi'i luniadu wrth raddfa.</p>

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 8: Archwilio Gwaith Saer ac Asiedydd

Cod yr uned:	M/600/0069
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r offer llaw, y defnyddiau a'r cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir mewn gwaith saer ac asiedydd ynghyd â'r sgiliau angenrheidiol i farcio allan a llunio uniadau syml i'w defnyddio mewn ffrâm.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwaith saer a gwaith asiedydd yn grefftau gwahanol ond maent yn defnyddio offer, defnyddiau, cyfarpar diogelu personol a sgiliau cyffelyb. Gyda'i gilydd, maent yn ffurfio'r grŵp crefftiau mwyaf yn y diwydiant adeiladu.

Fel arfer mae seiri coed yn gweithio y tu allan ar y safle ac yn cyflawni tasgau fel gosod fframiau drws, drysau, ffenestri, unedau cegin, grisiau a thoeon coed ar y safle. Fel arfer mae asiedyddion yn gweithio y tu mewn, mewn gweithdai ac yn cyflawni tasgau fel cynhyrchu nwyddau coed fel grisiau, ffenestri a drysau. Mae angen i seiri coed ac asiedyddion allu ffurfio uniadau mewn coed.

Ffocws cychwynol yr uned hon yw'r offer llaw, defnyddiau a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) a ddefnyddir mewn gwaith saer ac asiedydd. Dilynr hyn gan arweiniad ar y defnydd o rodenni amlinellu i farcio gwaith a chyfarwyddyd ynglŷn â thechnegau gweithio diogel a ddefnyddir i ffurfio uniadau mewn coed i'w ddefnyddio wrth gynhyrchu ffrâm syml.

Mae gwaith saer ac asiedydd yn golygu eich bod yn agored i rywfaint o risg a phwysleisir pwysigrwydd arferion iechyd, diogelwch a lles da trwy'r uned gyfan.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith saer ac asiedydd
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i farcio a ffurfio uniadau ar gyfer ffrâm goed yn ôl manyleb benodol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd

Offer llaw: pensil; riwl ddur; sgwâr cyfunol/sgwâr profi; cyllell farcio; medrydd mortais/marcio; befel llithr; gordd bren; morthwyl crafanc; cŷn mortais/ymyl befel; llif dyno/banel/dyno fach; plaen/jacblaen/plaen bach; carntro olwyn; mynawyd; tyrnsgriwiau llaw; dalbren mainc

Defnyddiau: prennau meddal adnewyddadwy; hoelion; pinnau panel; sgrwiau pren; glud polyfinyl asetad; papur sgraffinio

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith saer ac asiedydd

Materion iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau risg peryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwmpo; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar miniog; anafiadau cyhyrsgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i farcio a ffurfio uniadau ar gyfer ffrâm goed yn ôl manyleb benodol

Amlinellu: cynhyrchu a defnyddio rhodenni amlinellu; rhannau fertigol a llorweddol fframiau syml; eu defnyddio wrth gynhyrchu cynnyrch coed penodol

Uniadau: ee rhigol draws, haneru trwodd/cornel, haneru T, bagl trwodd/cornel, mortais a thyno trwodd/hansiedig, cynffonnog

Ffrâm bren: cynhyrchu ffrâm syml benodol wedi'i gwneud o doriadau coed i gynnwys amrediad o'r uniadau a restrwyd uchod i roi manylebau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]	T1 cyfiawnhau'r defnydd o offer llaw a defnyddiau'n ddiogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd [MC2, MC5, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer ac asiedydd [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]	T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau gwaith saer ac asiedydd penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI7 cynhyrchu rhodenni amlinellu a'u defnyddio i farcio gwaith [MC2, MC5, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]	T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad o fewn goddefiant a sgwâr 3mm.	Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad o fewn goddefiant a sgwâr 1mm.
LI8 amlinellu a thorri uniadau mewn coed [MC2, MC5, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI9 defnyddio amrediad o uniadau i gynhyrchu ffrâm goed yn ôl manyleb benodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, HR2, HR6, CE3, CE4]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 9: Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Asiedydd

Cod yr uned:	A/600/0088
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio offer llaw, offer pŵer, defnyddiau a Chyfarpar Diogelu Personol (PPE) sy'n briodol ar gyfer tasgau gwaith asiedydd a'r sgiliau a ddefnyddir i farcio a ffurfio uniadau syml.

Cyflwyniad i'r uned

Sgîl siapio ac uniadu pren yw gwaith asiedydd, ac mae'n un o'r sgiliau pwysicaf wrth weithio gyda phren. Mae'n cynnwys siapio a gosod darnau o bren at ei gilydd mewn dull trachywir i ffurfio gwrthrychau neu adeileddau amrywiol. Mae asiedyddion yn adeiladu amrywiaeth o gydrannau adeilad, er enghraifft drysau, ffenestri, cabinetau cegin, grisiau, dodrefn a ffitiadau eraill. Yn draddodiadol, mae asiedyddion yn gweithio'n gyffredinol ar raddfa lai na seiri coed safle. Mae asiedyddion yn gweithio dan do yn bennaf mewn gweithdai ar feinciau tra bo seiri coed safle'n gweithio dan do a'r tu allan ar safleoedd adeiladu. Fodd bynnag, yn y diwydiant adeiladu modern gellir dod o hyd i asiedyddion diwydiant yn gweithio mewn gweithdai, ar y safle neu'r ddau, o bosib.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r offer llaw i ddysgwyr sy'n cael eu defnyddio fwyaf aml mewn gwaith asiedydd a'r prosesau a'r technegau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio offer llaw i ffurfio cynhyrchion gwaith asiedydd. Bydd dysgwyr yn lluniadu rhoden amlinellu, sy'n lluniad manwl gywir yn cynrychioli maint go iawn yr eitem o waith asiedydd a gynhyrchir. Wedyn byddant yn defnyddio'r rhoden amlinellu i farcio coed ac adeiladu'r cynnyrch gwaith asiedydd.

Mae gwaith asiedydd yn golygu eich bod yn agored i rywfaint o risg a phwysleisir pwysigrwydd arferion iechyd, diogelwch a lles da trwy'r uned gyfan.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith asiedydd
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith asiedydd
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i farcio a ffurfio uniadau ar gyfer cynnyrch coed.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith asiedydd

Offer llaw: sgwâr profi; medrydd marcio; medrydd cyfunol; medrydd mortais; befel llithr; gordd bren; morthwyl crafanc; cynion mortais/ymyl befel; llif dyno; plaen llyfnhau/bach; carntro olwyn; mynawyd; tyrnsgriwiau llaw; cramp hir; clamp G; bachau mainc; lefel wirod

Defnyddiau: prennau meddal adnewyddadwy; hoelion; pinnau panel; sgriwiau pren; glud polyfinyl asetad; papur sgraffinio

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith asiedydd

Materion iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau risg peryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwympto; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar miniog; anafiadau cyhyrsgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; goglau

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i farcio a ffurfio uniadau ar gyfer cynnyrch coed

Amlinellu: cynhyrchu a defnyddio rhodenni amlinellu; trychiadau fertigol a llorweddol; eu defnyddio wrth gynhyrchu cynnyrch coed penodol

Uniadau: cornel/haneru T, rhigol draws, haneru cynffonnog, mortais a thyno (wedi'i letemu), mortais a thyno dwbl (wedi'i letemu)

Cynnyrch coed: drws panel neu ffenestr adeiniog

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith asiedydd [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig yn ddiogel gyda phob uniad o fewn goddefiant a sgwâr 1mm.</p>
<p>LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith asiedydd penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith asiedydd [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith asiedydd penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith asiedydd [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd diogel o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio priodol i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau gwaith asiedydd penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 cynhyrchu rhodenni amlinellu a'u defnyddio i farcio coed [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig yn ddiogel gyda phob uniad o fewn goddefiant 3mm.</p>	
<p>LI8 amlinellu a thorri uniadau mewn coed [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 defnyddio ystod o uniadau i gynhyrchu drws panel neu ffenestr adeiniog yn ôl manyleb benodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 10: Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Saer

Cod yr uned:	K/600/0071
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r offer llaw, offer pŵer, defnyddiau, cyfarpar diogelu personol priodol. Hefyd, mae'r uned yn datblygu sgiliau gwaith saer trwy gyflawni tasgau gwaith saer.

Cyflwyniad i'r uned

Gwaith saer yw sgîl torri, gweithio ac uno coed at ei gilydd. Hefyd, mae'n ymwneud â gosod adeileddau coed mewn adeilad. Mae seiri coed yn gosod parwydydd, drysau, ffenestri, lloriau, toeon, grisiau a bron pob cydran bren arall mewn adeiladau. Hefyd, gellir dod o hyd i seiri coed yn gweithio dan do mewn amgylchedd ffatri yn rhagffurfio cydrannau adeiladu coed fel cyplau to, trawstiau coed, tai ffrâm goed a pharwydydd, i'w cydosod maes o law ar y safle.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r offer llaw a ddefnyddir fwyaf aml mewn gwaith saer i ddysgwyr. Hefyd, mae'r uned yn atgyfnerthu'r prosesau a'r technegau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio offer llaw mewn gwaith saer. Mae cynnwys yr uned hon yn cynnwys lluniadu rhoden amlinellu a chynhyrchu cynnyrch coed.

Mae gwaith saer yn golygu eich bod yn agored i rywfaint o risg a phwysleisir pwysigrwydd arferion iechyd, diogelwch a lles da trwy'r uned gyfan.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith saer
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith saer
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i gyflawni tasgau gwaith saer.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith saer**

Offer llaw: pensil; sgwâr cyfunol; medrydd marcio; befel llithr; gordd bren; morthwyl crafanc; cynion ymyl befel; llif dyno/banel; jacblaen/plaen llyfnhau; plaen bach; carntro olwyn; mynawyd; tyrnsgriwiau; blwch meitro; pinsiwrn hoelion; pwnsh hoelion

Defnyddiau: prennau meddal adnewyddadwy; hoelion; sgriwiau pren; glud polyfinyl asetad; papur sgraffinio

2 **Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith saer**

Materion iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau risg peryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwympto; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar miniog; anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i gyflawni tasgau gwaith saer**

Amlinellu: cynhyrchu a defnyddio rhodenni amlinellu; golygon a thrychiadau fertigol a llorweddol; eu defnyddio wrth gynhyrchu cynnyrch coed penodol.

Uniadau: ee rhigol draws, haneru trwodd/cornel, haneru T, bagl trwodd/cornel, mortais a thyno trwodd/hansiedig, cynffonnog.

Tasg gwaith saer: hongian drysau (wedi'i hongian ar yr ochr gan ddefnyddio colfachau ymyl); gosod nwyddau haearn (clo mortais syml, clicied nos silindr, dolennau lifer); gosod mowldinau (rheilïau darluniau, byrddau sgyrtin, rheilïau dado, architrafau) wrth waliau maen fel sy'n briodol.

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith saer penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith saer penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith saer [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau gwaith saer [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 cynhyrchu rhodenni amlinellu a'u defnyddio i farcio gwaith [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad o fewn goddefiant a sgwâr 3mm.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad o fewn goddefiant a sgwâr 1mm.</p>
<p>LI8 amlinellu a thorri uniadau mewn coed [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 defnyddio amrediad o uniadau i gyflawni tasgau gwaith saer yn ôl manyleb benodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi'i gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r rhaglen o aseiniadau awgrymedig.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn dangos un ffordd o ran cynllunio cyflwyno ac asesu'r uned hon.

Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau ac/asesiad

Darlith. Dosbarth cyfan, trafodaeth dan arweiniad y tiwtor am offer llaw a defnyddiau. Gwaith unigol ar 'daflenni nodi offer a defnyddiau'.

Aseiniad 1: Adnoddau a Thechnegau a Ddefnyddir mewn Gwaith Saer

Darlith. Dosbarth cyfan, trafodaeth dan arweiniad y tiwtor am Gyfarpar Diogelu Personol a thechnegau gweithio diogel. Dylid trafod Cyfarpar Diogelu Personol o ran pryd a ble mae'n angenrheidiol a sut mae'n gweithio. Gwaith unigol ar 'daflenni nodi Cyfarpar Diogelu Personol'.

Gwaith ymarferol: dysgwyr yn cwblhau taflenni archeb i ddod o hyd i Gyfarpar Diogelu Personol o siopau. Darperir cyfleoedd i ddysgwyr ddethol a gwisgo'r amrediad llawn o Gyfarpar Diogelu Personol a ddefnyddir mewn gwaith saer.

Cyn y gwaith ymarferol a'r gwaith ymarferol. Dylai'r tiwtor arddangos materion iechyd a diogelwch eraill cyn i'r gwaith ymarferol ddechrau a'u hatgyfnerthu bob hyn a hyn trwy'r gwaith i gyd. Dylai dysgwyr fod yn cyflawni sgiliau sylfaenol, o dan oruchwyliaeth agos, cyn iddynt roi cynnig ar unrhyw dasgau gwaith saer ymarferol unigol.

Cyn y gwaith ymarferol: arddangos sut i gadw manau gwaith unigol yn daclus. Y ffordd orau o ddysgu'r sgiliau symud 'llaw i lygad' a gysylltir â gwaith saer yw bod y tiwtor yn arddangos y sgiliau sydd eu hangen, gyda'r dysgwyr wedyn yn ymarfer y sgiliau.

Grŵp/unigolyn yr arddangosiad i 'gychwyn' o'r rhoden amlinellu.

Unigolion i gyflawni tasgau gwaith saer gan gynnwys gosod mowldinau, hongian drysau a gosod nwyddau haearn.

Aseiniad 2: Cyflawni Tasgau Gwaith Asiedydd

Gwaith ymarferol: dylai'r tiwtor fonitro dysgwyr wrth iddynt ymarfer eu sgiliau a darparu arweiniad a chynghor a chywiro neu ganmol, fel sy'n briodol. Dylid gwneud y tasgau ymarferol o dan oruchwyliaeth a dylai'r tiwtor atal y dasg os yw'r dysgwyr yn gweithio'n anniogel. Dylai dysgwyr weithio'n unigol i gyflawni eu tasgau gwaith saer.

Uned 11: Archwilio Gweithrediadau Trywel

Cod yr uned:	M/600/0072
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau i ddethol a defnyddio'r offer a chyfarpar diogelu personol priodol yn ddiogel er mwyn codi adeileddau bricwaith a gwaith bloc sylfaenol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae bricwaith a gwaith bloc yn ffurfio cyfran fawr o elfennau gweledol yr adeiladau a'r adeileddau a welir yn ein trefi a'n dinasoedd. Mae gan fricwyr achos cyfiawn dros deimlo balchder am eu cyfraniad gwerthfawr i'r amgylchedd adeiledig. Yn wahanol i elfennau eraill o adeiladu sy'n cael eu hadnewyddu, eu hamnewid neu eu trwsio yn ystod oes adeilad, mae bricwaith a gwaith bloc yn wydn ac yn para'n hir. Mae'r bricwaith a'r gwaith bloc yn aml yn ffurfio adeiledd yr adeilad ei hun.

Mae bricwyr yn defnyddio brics a mortar i adeiladu adeileddau fel waliau, pontydd a simneiau, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer arbenigol i gyflawni gwaith trachywir a chywir o luniadau pensaernïol. Mae gosod brics yn un o'r crefftiau adeiladu hynaf, ac mae adeileddau'n bodoli yn y Dwyrain Agos ac yn India ers dros 5000 o flynyddoedd. Yn sgil hyn datblygwyd terminoleg benodol ac amrywiaeth o dechnegau, patrymau a phrosesau. Gwneir brics eu hunain yn ôl meintiau safonol allan o glai sydd wedi cael ei ffurfio mewn mowld neu wedi'i allwthio a'i dorri â gwifren ac wedyn yn cael eu ffwrndanio mewn olyn. Mae meintiau safonol brics yn caniatáu iddynt orgyffwrdd mewn amrywiaeth o batrymau rheolaidd a elwir yn fondiau, a'r bondio hwn sy'n rhoi gwedd reolaidd a deniadol i fricwaith ynghyd â'i gryfder a'i sadrwydd.

Mae'r uned hon yn ymchwilio i offer llaw, cyfarpar a'r sgiliau crefft sylfaenol a ddefnyddir yn aml ac y mae eu hangen i adeiladu adeileddau bricwaith a blocwaith sylfaenol. Rhoddir pwyslais ar ddethol offer a chyfarpar priodol yn gywir a'u defnyddio'n ddiogel. Mae'r uned hefyd yn trafod egwyddorion a dulliau cynhyrchu a defnyddio rhodenni medrydd wrth gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau bricwaith a gwaith bloc
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu waliau brics a blociau solet yn ôl manylebau penodol.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc**

Offer llaw: trywel wal; trywel pwyntio; haearn uniadu; lefel wirod; llinellau a phinnau adeiladwr; tingl; blociau cornel; morthwyl deuben; cŷn bolster; morthwyl brics

Defnyddiau: brics cyffredin; brics wynebu; brics peirianegol, brics solet; brics inswleiddio; tywod; sment; calch; dŵr

2 **Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau bricwaith a gwaith bloc**

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; arferion gweithio diogel, defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau'r risgiau o beryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwympo; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar; defnyddiau sgraffiniol; calch; sment; gwrthrychau'n cwmpo; ardal waith anniben, anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; het galed; siaced weladwy iawn; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu waliau brics a blociau solet yn ôl manylebau penodol**

Codi waliau trwch hanner bricsen: mewn wynebynnau; wedi'u huniadu ar un ochr i hydroedd syth mewn bondin brics ar eu hyd

Waliau ar-fric: i hydroedd syth mewn wynebynnau; wedi'u huniadau ar un ochr mewn bondin Seisnig a bondin Ffleminaidd

Codi waliau blociau: hydroedd syth mewn bondin brics ar eu hyd

Bricwaith: paratoi rhodenni medrydd pren gyda thoriadau llif bob 75mm; defnyddio'r medryddion hyn ar gyfer bricwaith

Gwaith bloc: nodi mesuriad ar yr un rhodenni medrydd bob 255 mm; defnyddio'r rhain i fesur ar gyfer gwaith bloc

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith a gwaith bloc [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn bricwaith a gwaith bloc [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 cynhyrchu rhoden fedrydd i amlinellu waliau brics a blociau [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda brics yn syth hyd at ± 3 mm, gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm a chorneli'n blwm hyd at ± 5 mm am bob metr o uchder.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda brics yn syth hyd at ± 3 mm, gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm a chorneli'n blwm hyd at ± 3 mm am bob metr o uchder, ynghyd ag wyneb gwaith glân nad yw'n amharu ar ddilyniant uniad y gwely.</p>
<p>LI8 nodi trefniadau bondio cyffredin a ddefnyddir wrth adeiladu waliau brics a blociau solet [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 cynhyrchu waliau bric a bloc solet yn ôl manyleb benodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 12: Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Bloc

Cod yr uned:	A/600/0074
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddethol a defnyddio'n ddiogel yr offer priodol a'r cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir i amlinellu ac adeiladu adeileddau gwaith bloc.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwaith bloc wedi bod yn rhan annatod o'r diwydiant adeiladu ers cyflwyno blociau concrit yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif. Bellach blociau yw un o'r defnyddiau mwyaf cyffredin wrth adeiladu, ac fe'u defnyddir fel arfer yn hytrach na brics wrth godi/ffurfio waliau. Mae blociau'n fwy o faint na brics ac felly nid oes angen cynifer ohonynt mewn unrhyw adeiledd, ac mae hyn yn arbed llafur, amser ac arian.

Ceir nifer o wahanol raddau o flociau concrit, gan gynnwys blociau concrit trwchus a ddefnyddir er mwyn eu nodweddion adeileddol a chan y bernir eu bod yn gallu gwrthsefyll y tywydd. Ceir hefyd flociau concrit ysgafn a ddefnyddir yn bennaf am eu nodweddion ynysu thermol ond na fernir eu bod yn gallu gwrthsefyll y tywydd.

Mae'r uned hon yn cynnig y cyfle i ddysgwyr archwilio'r trefniadau bondio cyffredin ar gyfer codi corneli a chysylltau gan ddefnyddio blociau concrit, a'r prosesau a'r technegau a ddefnyddir wrth eu hadeiladu. Rhoddir pwyslais cryf ar ddethol a defnyddio offer a chyfarpar diogelu personol yn briodol, ac ar arferion cadw tŷ da y mae eu hangen i sicrhau cydymffurfio ag arferion iechyd, diogelwch a lles derbyniol.

Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cyfrifiadau syml i ganfod dimensiynau cywir waliau wrth amlinellu adeileddau gwaith maen.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith bloc
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith bloc
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu corneli a chysylltau mewn waliau bloc solet yn ôl manylebau penodol.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith bloc**

Offer llaw: trywel wal; trywel pwyntio; haearn uniadu; lefel wirod; llinellau a phinnau adeiladwr; tingl; blociau cornel; morthwyl deuben; cŷn bolster; morthwyl brics; rhodenni mesur; proffiliau adeiladau

Defnyddiau: blociau, ee ysgafn, awyrog, trwchus, gwag, solet, sment llyfn ac wyneb garw; tywod; sment; calch; dŵr

2 **Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith bloc**

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; arferion gwaith diogel; defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau risg peryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwympo; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar; blociau torri; defnyddiau sgraffiniol; calch; sment; gwrthrychau'n cwmpo; ardal waith anniben, anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; het galed; siaced weladwy iawn; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu corneli a chysylltau mewn waliau bloc solet yn ôl manylebau penodol**

Amlinellu: hydoedd waliau wedi'u cyfrifo'n gywir; bondiau a hydoedd waliau; creu pantiau mewn waliau a'u danheddu;

Creu waliau bloc mewn bondiau gyda: hydoedd syth yn cynnwys pantiau a dannedd ar gyfer wal gysylltu; corneli; cysylltau T; cysylltau cyfnodol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith bloc [GT4, HR2, HR6]	T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith bloc penodol [GT4, HR2, HR6]		
LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith bloc [GT4, HR2, HR6]		
LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau gwaith bloc penodol [GT4, HR2, HR6]		
LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith bloc [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]	T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau gwaith bloc penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI7 nodi trefniant bondio cywir i'w ddefnyddio wrth adeiladu waliau bloc solet [GT4, HR2, HR6]	T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda blociau yn syth hyd at ± 3 mm a gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm.	Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda blociau yn syth hyd at ± 3 mm a gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm a chorneli'n blwm hyd at ± 3 mm am bob metr o uchder.
LI8 amlinellu manylion waliau bloc yn ôl dimensiynau penodol gydag arweiniad a goruchwyliaeth [GT4, HR2, HR6]		
LI9 cynhyrchu corneli a chysylltau mewn wal flociau solet yn ôl manylebau penodol. [GT4, HR2, HR6]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 13: Cyflawni Gweithrediadau Bricwaith

Cod yr uned:	F/600/0075
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddethol a defnyddio'n ddiogel yr offer priodol a'r cyfarpar diogelu personol a ddefnyddir i amlinellu ac adeiladu adeileddau bricwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae bricwyr yn rhan annatod o'r diwydiant adeiladu ac yn gyfrifol am lawer o'r amgylchedd adeiledig sydd i'w weld ledled y Deyrnas Unedig.

Cyflwynodd y Rhufeiniaid fricwaith i'r Deyrnas Unedig tua 2000 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, ni chafodd ei ddefnyddio'n helaeth gan y diwydiant adeiladu tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cynyddodd ei boblogrwydd yn ystod y chwyldro diwydiannol, gyda diwydiannu'r broses gweithgynhyrchu brics, ynghyd â chynnydd sylweddol yn y galw am dai, a arweiniodd at ddefnydd helaeth o frics fel dull adeiladu. Er bod dulliau adeiladu wedi parhau i esblygu, mae adeiladu gyda brics wedi parhau'n weithgaredd allweddol yn y diwydiant adeiladu.

Mae'r uned hon yn cyflwyno i'r dysgwyr drefniadau bondio cyffredin a ddefnyddir ar gyfer codi corneli, cysylltau a phileri mewn bricwaith, ac i'r prosesau a'r technegau a ddefnyddir wrth eu hadeiladu, gan gynnwys pwyntio a chysylltu. Rhoddir pwyslais cryf ar ddethol a defnyddio offer a chyfarpar amddiffyn personol yn briodol, ac ar gadw tî da sy'n angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio ag arferion iechyd, diogelwch a lles derbynol. Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cyfrifiadau syml i ganfod dimensiynau cywir waliau wrth amlinellu adeileddau gwaith maen.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau bricwaith.
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau bricwaith
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu bricwaith yn ôl manylebau penodol.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau bricwaith**

Offer llaw: trywel wal; trywel pwyntio; haearn uniadu; lefel wirod; llinellau a phinnau adeiladwr; tingl; blociau cornel; morthwyl deuben; cŷn bolster; morthwyl brics; rhodenni mesur; proffiliau adeiladau

Defnyddiau: brics cyffredin; brics wynebu; brics peirianegol; brics arbennig; tywod; sment; calch; dŵr

2 **Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau bricwaith**

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; arferion gwaith diogel; defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i leihau risg peryglon a nodwyd

Peryglon: llithro, baglu a chwympo; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar; blociau torri; defnyddiau sgraffiniol; calch; sment; gwrthrychau'n cwmpo; ardal waith anniben, anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; het galed; siaced weladwy iawn; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i amlinellu ac adeiladu bricwaith yn ôl manylebau penodol**

Camau amlinellu: cyfrifo manylion hydroedd waliau yn gywir; bondio manylion waliau'n gywir; cyfrifo a gwirio dimensiynau adeiladau

Codi waliau trwch hanner bricsen: hyd at gorneli mewn bond brics syth

Codi waliau trwch un fricsen: hyd at gorneli a phileri cysylltiedig mewn bond Seisnig a bond Ffleminaid

Dwy fricsen: pileri ynysig mewn bond Seisnig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau bricwaith penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau bricwaith penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau bricwaith [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau bricwaith penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 nodi trefniadau bondio cywir i'w defnyddio wrth adeiladu bricwaith [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda brics yn syth hyd at ± 3 mm, gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm a chorneli'n blwm hyd at ± 3 mm am bob metr o uchder.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda brics yn syth hyd at ± 3 mm, gwyriad wyneb plaen ≤ 3 mm a chorneli'n blwm hyd at ± 3 mm am bob metr o uchder.</p>
<p>LI8 amlinellu bricwaith yn ôl dimensiynau penodol gyda pheth arweiniad a goruchwyliaeth [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 cynhyrchu bricwaith yn ôl manylebau penodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 14: Archwilio Peintio ac Addurno

Cod yr uned:	J/600/0076
FfCCH Lefel 2:	BTEC
Gwerth Credydau Cyntaf:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i archwilio gwaith y peintiwr a'r addurnwr. Canolbwyntir ar ddysgu am y gwaith hwn trwy gymwysiadau ymarferol o sgiliau mewn paratoi arwyneb a defnyddio paent.

Cyflwyniad i'r uned

Peintio ac addurno yw un o'r setiau o sgiliau hynaf o fewn y diwydiant adeiladu. Yn y cyfnod cyn-hanesyddol roedd ein hynafiaid yn peintio lluniau ar waliau eu hogofâu. Ers hynny, mae pobl o bob diwylliant wedi addurno eu cartrefi, eu haddoldai, eu gweithleoedd ac adeiladau pwysig eraill, er mwyn gwneud iddynt ymddangos yn fwy deniadol, croesawgar, cynnes neu oer.

Fodd bynnag, nid dyma'r unig resymau bellach dros beintio arwynebau. Rhoddir paent i ddiogelu arwynebau sy'n agored i'r tywydd, i ddarparu 'cod lliw' mewn gosodiadau diwydiannol ac i gynhyrchu arwyneb hylan sy'n hawdd ei lanhau. Addurno yw cam olaf y gwaith o wneud adeilad yn gyfforddus ac yn ddeniadol, ac mae'r gallu i gynhyrchu gorffeniad paent o ansawdd yn sgil gwerthfawr. Mae hyn yn golygu y bydd cyflogaeth ar gael o hyd i bobl â sgiliau peintio ac addurno priodol. Fel gyda phob crefft, rhaid i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol gael eu datblygu gam wrth gam, ac mae'r uned hon yn darparu man cychwyn delfrydol ar gyfer dysgu am beintio ac addurno.

Mae'r uned yn ymwneud yn bennaf ag egwyddorion sylfaenol paratoi arwynebau a defnyddio paent at ddibenion addurno. Ar ôl cwblhau'r uned hon bydd dysgwyr yn gwybod pa offer a defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer paratoi arwynebau a gweithgareddau peintio syml. Byddant hefyd yn gallu paratoi arwynebau i'w peintio ac yn gallu defnyddio paent ar arwynebau sydd wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio arferion gweithio diogel. Hefyd, bydd dysgwyr yn ymwybodol o faterion iechyd, diogelwch a lles sy'n rhan o beintio ac addurno. Mae'r uned yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer astudio unedau pellach sy'n ymwneud â gweithgareddau peintio ac addurno. Yn yr unedau pellach hyn, bydd y dysgwyr yn gallu astudio papuro waliau, gosod gorffeniadau gweddol a gosod cilfwâu a chanol nenfwd.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw, defnyddiau a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr i gyflawni tasgau penodol
- 2 Deall arferion gweithio diogel i baratoi arwynebau newydd ac arwynebau a beintwyd o'r blaen i gael eu peintio
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth ddefnyddio paent ar arwynebau sy wedi cael eu paratoi.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw, defnyddiau a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr i gyflawni tasgau penodol**

Offer llaw: sgrafell; cyllell lenwi; cyllell pwti; crafwr; tegell paent; brwsh paent; rholiwr paent; blychau a bwcedi rholwyr paent ; bwrdd calcio; cyllell hacio; stripiwr aer poeth; glanhau offer

Defnyddiau: llenwyr powdr a pharod; sgraffinyddion wedi'u gorchuddio; powdrau a chyfansoddion sgraffiniol; glanedyddion a defnyddiau golchi; paentiau dŵr; paentiau toddydd; tynwyr paent hylifol

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; oferôls; diogelu'r dwylo; diogelu'r llygaid

Cyfarpar mynediad: defnyddio ysgolion bach; grisiau camu; llwyfannau gweithio trestl

2 **Deall arferion gweithio diogel i baratoi arwynebau newydd ac arwynebau a beintwyd o'r blaen i gael eu peintio**

Arwynebau newydd; coed; metel fferrus; metel anfferrus; plastr; bwrdd plastr; gwaith maen

Arwynebau a baentwyd o'r blaen: arwynebau cadarn; arwynebau simsan; arwynebau sydd eisoes yn bod, ee emwlsiwn mat, emwlsiwn llewyrch meddal, emwlsiwn sidan, plisgyn wy seiliedig ar ddŵr, sglein seiliedig ar doddyddion

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth ddefnyddio paent ar arwynebau sy wedi cael eu paratoi**

Gweithio gyda phaent: paent dŵr, ee emwlsiwn mat, emwlsiwn llewyrch meddal, emwlsiwn sidan, tanbaent preimer acrylig, plisgyn wy acrylig, sglein acrylig; paent toddydd ee preimer pren, preimer metel, tanbaent, plisgyn wy, sglein

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio arferion diogel i leihau risg peryglon a nodwyd; Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir i gyflawni tasgau peintio ac addurno [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 esbonio'r defnydd diogel o offer, defnyddiau a chyfarpar mynediad i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir i gyflawni tasgau peintio ac addurno [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio dethol y cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr wrth baratoi defnyddiau i'w defnyddio [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gydag arwynebau wedi'u sgrafellu ond heb eu rhicio ac wedi'u llenwi'n llyfn, a gwaith paent gorffenedig heb flew gyda'r holl doriadau'n llym ac yn daclus.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gydag arwynebau wedi'u sgrafellu ond heb eu rhicio ac wedi'u llenwi'n llyfn, a gwaith paent gorffenedig heb flew gyda'r holl doriadau'n llym ac yn daclus, heb unrhyw ddarnau wedi'u colli na namau eraill i'w gweld o bellter 1 m.</p>
<p>LI8 cyflawni gweithgareddau peintio ac addurno gan ddefnyddio offer llaw [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 dangos y defnydd diogel o ddefnyddiau wrth gyflawni tasgau peintio ac addurno [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI10 dangos y defnydd diogel o gyfarpar mynediad lefel isel wrth gyflawni tasgau peintio ac addurno. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 15: Cyflawni Gweithrediadau Papuro

Cod yr uned:	L/600/0077
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn papuro. Canolbwyntir yn bennaf ar ddatblygu sgiliau trwy ddefnydd ymarferol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae pobl wedi bod yn addurno adeiladau â phaent ers canrifoedd mawr, ac am y mwyafrif o'r cyfnod hwn, prin oedd y dewisiadau eraill. Daeth y syniad o ddefnyddio papur wal i orchuddio waliau mewnol i Brydain o Tsieina ac Ewrop yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuwyd printio gyda pheiriannau ac o ganlyniad, roedd papur wal yn llawer mwy fforddiadwy. Cafwyd hwb arall i bapur wal yn y 1950au pan gyflwynwyd papurau golchadwy, wedi'u pastio a'u trimio ymlaen llaw, ynghyd â'r ffaith fod amrywiaeth mwy o ddyluniadau ar gael ac yn sgil hyn, cafodd papuro ei sefydlu fel techneg addurno eang ei defnydd, yn enwedig mewn cartrefi.

Heddiw, defnyddir papur wal i wella gwedd a cheinder ystafell, i ychwanegu lliw a gwedd i ardaloedd a allai fel arall ymddangos yn blaen ac i orchuddio holltau a diffygion eraill mewn wal neu nenfwd. Mae llawer o fathau gwahanol o bapur wal: mae rhai yn cael eu defnyddio at ddibenion paratoi ac mae angen rhoi paent neu bapur arall ar eu pen ac mae eraill yn rhoi gorffeniad addurnol nad oes agen rhoi sylw pellach iddo.

Addurno yw cam olaf y gwaith o wneud adeilad yn gyfforddus ac yn ddeniadol, ac mae'r gallu i bapuro waliau'n sgîl gwerthfawr. Mae hyn yn golygu y bydd cyflogaeth ar gael o hyd i bobl â'r sgiliau papuro priodol. Fel gyda phob crefft, rhaid i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol gael eu datblygu gam wrth gam, ac mae'r uned hon yn darparu man cychwyn da ar gyfer dechrau dysgu am bapuro. Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gwybod pa offer, defnyddiau a chyfarpar a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer gweithgareddau papuro syml ac yn gallu cymysgu adlynion ac yn gallu papuro yn unol ag arferion gweithio diogel cydnabyddedig. Fel gydag unrhyw weithgaredd adeiladu, mae iechyd, diogelwch a lles o'r pwysigrwydd pennaf, a chaiff hyn ei bwysleisio drwy gydol yr uned, gan gyfeirio'n benodol at weithio ar gyfarpar mynediad lefel isel.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw, defnyddiau a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr i gyflawni gweithgareddau papuro
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau papuro
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau papuro.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod yr offer llaw, defnyddiau a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr i gyflawni gweithgareddau papuro

Offer llaw: brwsh papuro; brwsh pastio; bwrdd pastio; llinyn plwm a phlymen; tâp mesur; cyllell drimio; siswrn; lefel wirod; bwrdd calcio; ymyl syth; bwced; sbwng; rholer semau

Defnyddiau: past powdr; past parod; maint; papurau paratoi; papurau simplecs; papurau dwplecs; papurau boglynnog; papurau patrwm syth a disgyn

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; oferôls; diogelu'r dwylo; diogelu'r llygaid; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

Cyfarpar mynediad: ysgolion bach; grisiau camu; llwyfannau gweithio trestl

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau papuro

Past: past startsh; past seliwlos; past PVA parod;

Gorchuddiadau waliau: papur leinin; papur simplecs; papur dwplecs; papur boglynnog; patrymau syth; patrymau disgyn

Technegau: paratoi arwynebau waliau ar gyfer gorchuddiadau ee gwella a selio/seisio; mesur a thorri gorchuddiadau waliau'n gywir; cymysgu a chymhwysu past papur wal; hongian papur wal ar waliau fertigol o gwmpas corneli, rhwystrau ac agoriadau

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio arferion diogel i leihau risg peryglon a nodwyd; gan gyfeirio'n benodol at ofynion Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau papuro

Cyfarpar mynediad: defnyddio ysgolion bach yn ddiogel; grisiau camu a llwyfannau gweithio trestl; rhoi cyfarpar at ei gilydd; ei ddatgysylltu a'i storio

Tasgau papuro: paratoi arwynebau i dderbyn papur wal; hongian papur wal ar arwynebau fertigol o gwmpas corneli mewnol ac allanol, ffenestri, drysau, lleoedd tân, socedi a switshis golau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer llaw a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir i gyflawni gweithrediadau papuro [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]	T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer, defnyddiau a chyfarpar mynediad i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 dethol yr offer llaw a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir i gyflawni tasgau papuro penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir mewn gweithrediadau papuro [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]		
LI4 dethol y defnyddiau a ddefnyddir mewn tasgau papuro penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau papuro penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio dethol y cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr wrth baratoi defnyddiau i'w defnyddio [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig heb swigod aer, pothelli na chrychau, a heb fylchau neu orgyffwrdd >2 mm.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig heb swigod aer, pothelli na chrychau, heb fylchau neu orgyffwrdd >2 mm, gyda phennau syth a thaclus heb olion siswrn, gwyro fertigol <2 mm o'r plwm ac unrhyw batrymau wedi'u cydosod yn gywir.</p>
<p>LI8 cyflawni tasgau penodol gan ddefnyddio offer llaw [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 dangos y defnydd diogel o ddefnyddiau wrth gyflawni tasgau penodol [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI10 dangos y defnydd diogel o gyfarpar mynediad lefel isel wrth gyflawni tasgau penodol. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 16: Cyflawni Gweithrediadau Addurno

Cod yr uned:	R/600/0078
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a gwybodaeth wrth ddefnyddio gorffeniadau gweadog a gosod cilfwâu a darnau canol nenfydau. Canolbwyntir yn bennaf ar ddatblygu sgiliau trwy gymhwysiad ymarferol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae mwy o ffyrdd i wneud i ystafell edrych yn fwy ysblennydd a deniadol na pheintio a phapuro yn unig. Gellir gosod gorffeniadau gweadog ar waliau a nenfydau i ddarparu gorffeniad sy'n ddeniadol ac sy'n treulio'n dda, ac mae gosod cilfwâu a darnau canol nenfydau fel arfer yn gwella gwedd ystafell.

Addurno yw'r cam olaf wrth wneud adeilad yn gyfforddus ac yn ddeniadol, ac mae gallu gosod gorffeniadau gweadog a chilfwâu a darnau canol nenfydau yn sgiliau gwerthfawr. Mae hyn yn golygu y bydd cyflogaeth ar gael o hyd i bobl â'r sgiliau i wneud hyn. Fel gyda phob crefft, rhaid i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol gael eu datblygu gam wrth gam, ac mae'r uned hon yn fan cychwyn da ar gyfer dechrau dysgu am y math hwn o addurno.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gwybod pa offer, defnyddiau a chyfarpar a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer gweithgareddau gweadu, gosod cilfwâu a darnau canol nenfydau, a byddant yn gallu cyflawni'r prosesau hyn yn unol ag arferion gweithio diogel cydnabyddedig. Rhoddir pwyslais cryf ar iechyd, diogelwch a lles drwy gydol yr uned, yn benodol o ran gweithio ar gyfarpar mynediad lefel isel.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw, y defnyddiau a'r chyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr
- 2 Deall arferion gweithio diogel ar gyfer gosod gorffeniadau gweadog a chilfwâu a darnau canol nenfydau
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau gosod cilfwâu,

gweadu a darnau canol nenfydau.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw, y defnyddiau a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir gan addurnwyr**

Offer llaw: erfyn calcio; cribau plastig; offer cymysgu; dotweithiwr rwber; cydiwr; rholwyr gweadog; llif pwynt caled; tâp mesur; meitr cilfwa; cylllell; brwsh gosod; brwsh modfedd; cyllyll llenwi a phwti; rholer rhisgl

Defnyddiau: defnyddiau gwadeddu; cymysgu dŵr oer a dŵr cynnes; cilfwâu bwrdd plastr; cilfwâu plastr ffibrog; cilfwâu polystyren; darnau canol plastr; darnau canol sbwng

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; oferôls; diogelu'r dwylo; diogelu'r llygaid; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

Cyfarpar mynediad: defnyddio ysgolion bach; grisiau camu; llwyfannau gweithio trestl

2 **Deall arferion gweithio diogel ar gyfer gosod gorffeniadau gweadog a chilfwâu a darnau canol nenfydau**

Gorffeniadau gweadog: dotweithiwr canolig sylfaenol; chwyrliad; rhisgl; lledr toredig

Gosod cilfwâu: ee polystyren, bwrdd plastr, plastr ffibrog

Gosod darnau canol: ee plastr ffibrog, sbwng

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio arferion diogel i leihau risg peryglon a nodwyd; gan gyfeirio'n benodol at ofynion COSHH

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau gosod cilfwâu, gwadu a darnau canol nenfydau**

Paratoi arwynebau moel: plastr; bwrdd plastr

Paratoi arwynebau a baentiwyd o'r blaen: gorffeniadau mat seiliedig ar ddŵr; gorffeniadau plisgyn wy a sglein seiliedig ar doddyddion

Gosod gorffeniadau gweadog: dotweithiwr canolig, sylfaenol; chwyrliad; rhisgl; lledr toredig

Gosod cilfwâu a darnau canol: bwrdd plastr; plastr ffibrog; sbwng

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio arferion diogel i leihau risg peryglon a nodwyd; gan gyfeirio'n benodol at ofynion COSHH

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a'r cyfarpar mynediad a ddefnyddir i gyflawni tasgau addurno [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer, defnyddiau a chyfarpar mynediad i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a'r cyfarpar mynediad i gyflawni tasgau addurno penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir mewn tasgau addurno [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau a ddefnyddir mewn tasgau addurno penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio dethol y cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr wrth baratoi defnyddiau i'w defnyddio [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda gorffeniadau gweadog taclus a chyson, a chilfwâu a darnau canol nenfydau wedi'u gosod yn gywir o fewn ± 3 mm.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda gorffeniad gweadog taclus a chyson, cilfwâu a darnau canol nenfydau wedi'u gosod o fewn ± 3 mm, gorffeniad gweadog ansawdd uchel heb fylchau nac amherffeithrwydd gweladwy arall o 1m, a gosod cilfwâu a darnau canol nenfydau yn gywir hyd at ± 1 mm.</p>
<p>LI8 cyflawni tasgau penodol gan ddefnyddio offer llaw [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 dangos y defnydd diogel o ddefnyddiau wrth gyflawni tasgau gosod cilfwâu, gweadu a darnau canol nenfydau [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI10 dangos y defnydd diogel o gyfarpar mynediad lefel isel wrth gyflawni tasgau gosod cilfwâu, gweadu a darnau canol nenfydau. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 17: Archwilio Technegau Gwasanaethau Adeilad mewn Adeiladu

Cod yr uned:	Y/600/0079
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i archwilio technegau mewn gwasanaethau adeiladu trwy wneud ymarferion ymarferol mewn gwaith plymiwr a thrydanwr gan ddefnyddio offer a chyfarpar yn ôl safonau'r diwydiant.

Cyflwyniad i'r uned

Pwrpas yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr wneud rhai agweddau ymarferol ar wasanaethau adeiladu wrth adeiladu. Bydd angen iddynt allu dethol yr offer a'r cyfarpar iawn i gyflawni gweithrediadau gwasanaethau adeiladu a gallu asesu'r peryglon a'r mesurau diogelwch sydd eu hangen wrth gyflawni'r gweithrediadau hyn. Bydd dysgwyr yn gallu gweld sut mae ceblau a gwifriad trydanol yn cael eu gosod at ei gilydd a sut mae peipiau a ffitiadau copr yn dosbarthu gwasanaethau dŵr trwy wneud rhai o'r gweithrediadau yn gorfforol.

Mae gwasanaethau adeiladu'n ffurfio rhan fawr o unrhyw brosiect adeiladu ac maent yn tueddu i gael eu gwneud gan isgcontractwyr arbenigol ym mhob maes gwasanaeth. Yn aml, maent yn defnyddio systemau cymhleth iawn wrth wresogi, goleuo ac awyru adeiledd adeilad modern nad ydynt yn weladwy gan eu bod yn cael eu cuddio oddi mewn i adeiledd yr adeilad. Mae diogelwch o'r pwys mwyaf, yn enwedig wrth ymdrin â thrydan a dŵr a bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau i'w galluogi i weithredu'n ddiogel. Ar ben hynny, mae gwasanaethau adeiladu'n hanfodol er mwyn i unrhyw adeilad weithredu'n esmwyth. Maent yn dosbarthu gwres, egni a golau o gwmpas yr adeilad ac yn cael gwared â gwastraff trwy awyru, gwacáu a gwaredu. Hefyd, mae gwasanaethau'n cynnwys symud preswylwyr, er enghraifft defnyddio lifftiau a grisiau symudol a'r mesurau diogelu cysylltiol er enghraifft larymau tân ac ysgeintellau.

Hefyd, mae gwasanaethau trydanol yn elfen hanfodol wrth ddosbarthu anghenion pŵer a golau adeiladau domestig a masnachol yn ddiogel. Mae gwasanaethau gwaith plymwr yn dosbarthu dŵr poeth ac oer a chyflenwadau gwresogi yn ddiogel o gwmpas adeiledd yr adeilad.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwasanaethau adeiladu syml
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwasanaethau adeiladu
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i gyflawni gwaith ar elfennau sylfaenol gosodiadau gwasanaethau adeiladu.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwasanaethau adeiladu syml

Offer llaw: pensil; tâp mesur; torwyr tiwbiau; haclif fach; ffeil hanner cylch; gripiâu peipiau; tyrnsgriwiau; feis fainc; peiriant plygu tiwbiau; lamp losgi; gripiâu; torwyr ceblau; lefel wirol

Tasgau gwasanaethau adeiladu mecanyddol: uniadau peipiau syml; ffitiadau math A cywasgedd; sodro mathau pen bwydo; sodro ffitiadau math cylch; fflwcs; gwllân dur; uniadau plastig gwthffit; torri peipiau i'r hyd cywir; gosod yn llorweddol neu fertigol yn ôl safonau'r diwydiant

Tasgau gwasanaethau adeiladu trydanol: cysylltau trydanol sylfaenol; cysylltyddion rhaw; terfynellau sgriw; math o sodro; cysylltau gwthffit neu glip; torri ceblau i'r hyd cywir; terfynellau addas; gosod ceblau'n gywir yn unol â safonau'r diwydiant

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwasanaethau adeiladu

Iechyd, diogelwch a lles: yr offer cywir ar gyfer y dasg gywir; gofynion COSHH; gweithdrefnau ar gyfer ynysu gwasanaethau adeiladu'n ddiogel (nwy, dŵr, trydan); cadw'r gweithle'n lân ac yn dactlus; nodi peryglon; mesurau rheoli i leihau risgiau

Cyfarpar mynediad: gwirio sgaffaldiau symudol, ysgolion ymestyn, ysgolion bach, eu rhoi at ei gilydd, eu datgysylltu a'u storio'n ddiogel

Offer pŵer cludadwy: tyrnsgriwiau/driliau diwifr; dril morthwyl

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i gyflawni gwaith ar elfennau sylfaenol gosodiadau gwasanaethau adeiladu

Gwasanaethau adeiladu syml: systemau dosbarthu sylfaenol (dŵr, nwy, trydan)

Marcio: o luniadau gwasanaethau adeiladu (gwaith peipiau, cylchedau trydanol); defnyddio mesuriadau yn ôl graddfa; cyfrifiadau syml cysylltiol

Gosod cydrannau: defnyddio clipiau a bracedi i gynnal peipiau a cheblau; gosod peiriannau a chydrannau ar amrywiaeth o orffeniadau arwyneb

Sgiliau gosod: plygu a gosod tiwb diamedr 15 mm a 22 mm er mwyn llunio systemau peipiau; defnyddio cebl PVC 1.5 mm² a 2.5 mm² mewn gosodiadau trydanol

Iechyd, diogelwch a lles: yr offer cywir ar gyfer y dasg gywir; gofynion COSHH; gweithdrefnau ar gyfer ynysu gwasanaethau adeiladu'n ddiogel (nwy, dŵr, trydan); cadw'r gweithle'n lân ac yn dactlus; nodi peryglon; defnyddio mesurau rheoli i leihau risgiau

Cyfarpar mynediad: gwirio sgaffaldiau symudol, ysgolion ymestyn, ysgolion bach, eu rhoi at ei gilydd, eu datgysylltu a'u storio'n ddiogel

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni technegau gwasanaethau adeiladu [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwasanaethau adeiladu penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni technegau gwasanaethau adeiladu [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau i'w defnyddio mewn tasgau gwasanaethau adeiladu penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 esbonio'r gofyniadau diogelwch cyn cyflawni gweithrediadau gwasanaethau adeiladu [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio dethol cyfarpar diogelu personol priodol a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer gwneud gweithrediadau gwasanaethau adeiladu [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 gosod cylched drydanol syml yn ddiogel gan ddefnyddio cysylltiadau yn ôl safonau'r diwydiant [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig, wedi'i osod a'i adeiladu yn ôl goddefiannau derbyniol.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig, wedi'i osod a'i adeiladu yn ôl goddefiannau minimol.</p>
<p>LI8 gosod pibwaith yn ddiogel gan ddefnyddio cysylltiadau yn ôl safonau'r diwydiant [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI9 arddangos cyflawni gweithrediadau gwasanaethau adeiladu'n ddiogel. [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 18: Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Plymwr

Cod yr uned:	L/600/0080
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn archwilio'r offer, y cyfarpar a'r technegau gweithio a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru ac mae'n rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r technegau i osod systemau pibwaith.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gweithrediadau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru'n weithgareddau masnach pwysig yn y sector gwasanaethau adeiladu.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr offer llaw, yr offer pŵer cludadwy, y cyfarpar diogelu personol a'r technegau gweithio diogel a ddefnyddir i osod systemau pibwaith ar gyfer crefftiau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru.

Pwysleisir yn gryf nodi, dethol a defnyddio'n gywir yr offer llaw a'r offer pŵer sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwaith gosod.

Mae'r uned yn mynd i'r afael â'r materion iechyd, diogelwch a lles i'w hystyried wrth ddefnyddio sgiliau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru i osod systemau pibwaith. Rhoddir sylw penodol i ddefnyddio cyfarpar trydanol yn ddiogel wrth weithio gyda dŵr.

Mae'r uned hefyd yn darparu cyfle i ddysgwyr ddeall y gofynion ar gyfer defnyddio cyfarpar mynediad yn gywir gan gynnwys ysgolion bach, ysgolion ymestyn a thyrau symudol.

Bydd gan ddysgwyr y cyfle i ffurfio uniadau mewn pibwaith gan ddefnyddio ffitiadau cywasgedd a ffitiadau capilari. Byddant yn ymgorffori uniadau o'r fath yn y trefniadau pibwaith a geir yn nodweddiadol mewn adeiladau domestig.

Fodd bynnag, byddai dysgwyr sy'n chwilio am becyn annibynnol o unedau yn ymwneud â chrefftau gwasanaethau adeiladu'n elwa o astudio'r tair uned gwasanaethau adeiladu, naill ai mewn ffordd gyfannol neu fel unedau ar wahân. Yr unedau yw *Uned 17: Archwilio Technegau Gwasanaethau Adeilad mewn Adeiladu*, *Uned 18: Cyflawni Gweithrediadau Gwaith Plymwr* ac *Uned 19: Perfformio Gweithrediadau Trydanol*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am yr offer llaw a'r offer pŵer cludadwy a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i ffurfio uniadau peipiau a gosod systemau pibwaith yn ôl manylebau penodol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am yr offer llaw a'r offer pŵer cludadwy a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru

Offer llaw: pensil; tâp mesur; torwyr tiwbiau; haclif fach; ffeil hanner cylch; gripiâu peipiau; tyrnsgriwiau; feis fainc; peiriant plygu tiwbiau; lamp losgi

Offer pŵer cludadwy: tyrnsgriw/dril diwifr; dril morthwyl

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; goglau; cyfarpar diogelu personol arall fel sy'n briodol

Cyfarpar mynediad: gwirio ysgolion ymestyn ac ysgolion bach, eu rhoi at ei gilydd, eu datgysylltu a'u storio'n ddiogel

Iechyd, diogelwch a lles: yr offer cywir ar gyfer y dasg gywir; gofynion COSHH; arunigo systemau gwaith plymwr yn ddiogel; defnyddio offer pŵer cludadwy yn ddiogel gyda dŵr; yr angen i gadw'r ardal waith yn lân ac yn daclus; nodi peryglon a mesurau rheoli i leihau risgiau

Peryglon: cwympto o uchder; llithro, baglu a chwympto; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar miniog; llosgiadau a achosir trwy ddefnyddio lampau llosgi; trawma trydanol a achosir gan gyfarpar diffygiol; anafiadau cyhyrsgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i ffurfio uniadau peipiau a gosod systemau pibwaith yn ôl manylebau penodol

Mesur a marcio: o luniadau gwasanaethau adeiladu a ddarperir; defnyddio mesuriadau yn ôl graddfa; cyfrifiadau syml cysylltiedig

Ffurfio uniadau peipiau sylfaenol: defnyddio ffitiadau cywasgiad math A; sodro mathau pen bwydo; sodro ffitiadau math cylch; fflwcs; gwlan dur

Gosod systemau pibwaith: torri peipiau i'r hyd cywir; llawdrin peipiau trwy blygu a gosod tiwb diamedr 15 mm a 22 mm; ffurfio uniadau peipiau dwrglos; defnyddio clipiau a bracedi i osod peipiau i amrywiaeth o orffeniadau arwyneb

Manylebau: uniadau i fod yn ddwrglos; plygion i fod ar ongl sgwâr; hyd y peipiau i fod yn llorweddol a/neu'n fertigol fel sy'n briodol; pibwaith i gael ei glipio'n gadarn wrth yr arwyneb

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a'r offer pŵer cludadwy a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru sylfaenol [YA1, YA2, YA3, YA4]</p>	<p>T1 esbonio'r defnydd diogel o offer llaw ac offer pŵer cludadwy i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a'r offer pŵer cludadwy sydd eu hangen i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru penodol [YA1, YA2, YA3, YA4]</p>		
<p>LI3 nodi'r cyfarpar diogelu personol, cyfarpar mynediad a'r arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau gwaith plymwr a gwresogi ac awyru sylfaenol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 esbonio defnyddio cyfarpar mynediad lefel isel, ei roi at ei gilydd, ei ddatgysylltu a'i storio'n ddiogel</p>	
<p>LI4 esbonio dethol cyfarpar diogelu personol, cyfarpar mynediad a thechnegau gweithio sy'n briodol i dasg gwaith plymwr penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 mesur a marcio systemau pibwaith [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]	T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad yn ddwrglos, pob plyg $90^\circ \pm 10^\circ$ a'r pibwaith wedi'i osod yn gadarn i'r arwyneb.	Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda phob uniad yn ddwrglos, hyd y pibwaith naill ai'n llorweddol neu'n fertigol, pob plyg $90^\circ \pm 10^\circ$ a'r pibwaith wedi'i osod yn gadarn ac yn daclus i'r arwyneb.
LI6 cyflawni technegau uniadu peipiau [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]		
LI7 cynhyrchu gosodiadau pibwaith yn ôl manylebau penodol. [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 19: Perfformio Gweithrediadau Trydanol

Cod yr uned:	R/600/0081
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i osod cylchedau trydanol ar gyfer pŵer a golau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau safonol i'r diwydiant ar hyn o bryd.

Cyflwyniad i'r uned

Diben yr uned hon yw caniatáu i ddysgwyr wneud rhai o'r agweddau ymarferol ar osodiad trydanol yn y diwydiant adeiladu. Bydd angen iddynt allu dethol yr offer a'r cyfarpar mynediad iawn i gyflawni gweithrediadau gwasanaethau trydanol a gallu asesu'r peryglon a'r mesurau diogelwch sydd eu hangen wrth gyflawni'r gweithrediadau hyn. Bydd dysgwyr yn gallu gweld sut mae ceblau a gwifriad trydanol yn cael eu gosod at ei gilydd trwy wneud rhai o'r gweithrediadau hyn mewn lleoliad ymarferol.

Fel arfer, gwneir y gosodiadau trydanol mewn adeiladu gan is-gontractwr trydanol arbenigol a fyddai'n gosod yr holl anghenion o ran pŵer, golau a data ar gyfer adeilad domestig neu fasnachol. Mae hyn yn golygu gwifro cebl o'r prif gyflenwad i allfeydd soced neu ffitiadau golau. Mae'n rhaid i'r gwaith yma gael ei wneud yn gywir i sicrhau diogelwch preswylwyr yr adeilad.

Gall trydan achosi anaf neu ladd os ydych yn derbyn sioc drydan felly mae'n rhaid i'r holl wifriadau gael eu gosod yn unol â deddfwriaeth drydanol gyfredol. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddeall y risgiau a'r peryglon sydd ynghlwm wrth weithio gyda thrydan a sut i'w hamddiffyn eu hunain rhag y risgiau hyn. Felly, mae profi'r gosodiadau terfynol ar y diwedd yn ffactor pwysig cyn i'r gylched fynd yn fyw.

Oherwydd natur gwaith trydanwr, mae angen gweithio ar uchder weithiau. Bydd dysgwyr yn archwilio sut i gyrchu uchder penodol gan ddefnyddio systemau cyrchu diogel. Bydd angen codi systemau cyrchu diogel a'u datgysylltu'n gywir gan gynnwys eu harolygu cyn eu defnyddio.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir wrth gyflawni tasgau gosodiad trydanol
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig sy'n gysylltiedig â chyflawni gweithrediadau gosodiad trydanol
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i osodiadau trydanol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir wrth gyflawni tasgau gosodiad trydanol

Offer llaw: pensil; tâp mesur; riwl ddu; morthwyl wyneb crwn; haclif; haclif fach; gefeiliau; gefeiliau ochr dorri; cylllell stripio; stripiwr ceblau; lefel wirod

Offer pŵer cludadwy: tyrnsgrif/drif diwifr; drif morthwyl

Cyfarpar diogelu personol: esgidiau diogelwch; diogelu'r dwylo; diogelu'r llygaid; mygydau llwch; oferôls

Defnyddiau: mathau o geblau; defnyddiau uniadu; ffitiadau; socedi; switshis

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig sy'n gysylltiedig â chyflawni gweithrediadau gosodiad trydanol

Deddfwriaeth: Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; Deddf Trydan yn y Gwaith 1989; Gofynion BS 7671 ar gyfer Gosodiadau Trydanol 2008

Ardal weithio: cadw'r ardal waith yn lân a thaclus; nodi peryglon; mesurau rheoli priodol i leihau risgiau

Cyfarpar mynediad: gwirio ei fod yn ddiogel; defnydd; datgysylltu a storio sgaffaldau symudol; ysgolion ymestyn; ysgolion bach

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i osodiadau trydanol

Cylchedau: cylch; rheiddiol; goleuadau; un ffordd; dwy ffordd; dros dro; systemau dolennu

Amlinellu: dehongli lluniadau trydanol; mesur yn ôl graddfa; cyfrifiadau cysylltiedig syml (hyd, bylchau, onglau, symiau)

Gosod ategolion: blychau switshis; blychau socedi; daliwr lamp estyll; sgrif Edison; rhosod nenfwd

Gwasanaethau: cwblhau systemau gwifriad syml gan ddefnyddio PVC dwbl 2.5 mm² a 5.5 mm² gyda CPC; gorchuddio; radiws plygu; mynediad i ategolion

Clipio: clipiau cymeradwy; bylchiad cywir; ffitiadau diogel

Cysylltu: torri deunydd inswleiddio i'r hyd cywir; dim difrod; polaredd cywir

Profi: arolwg gweledol; dilyniant; gwrthiant inswleiddio; polaredd; profi ymarferol

Ynysu'n ddiogel: nodi cylchedau; hysbysu'r bobl berthnasol; diffodd; tynnu ffiwsiau; cau; gosod hysbysiadau; profi foltedd; defnyddio uned brofi

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad y mae ei hangen i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer cywir ar gyfer cyflawni gosodiadau trydanol [YA1, YA2, YA3, YA4]	T1 esbonio'r defnydd diogel o offer, defnyddiau a chyfarpar diogelu personol i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 disgrifio'r cyfarpar diogelu personol cywir sydd ei angen ar gyfer cyflawni gosodiadau trydanol [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI3 nodi'r cyfarpar mynediad ar gyfer cyflawni gosodiadau trydanol [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI4 esbonio'r brif ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch sy'n gymwys o ran gosodiadau trydanol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]	T2 esbonio defnyddio cyfarpar mynediad, ei roi at ei gilydd, ei ddatgysylltu a'i storio'n ddiogel	
LI5 nodi'r gofyniadau diogelwch cyn dechrau gweithrediadau trydanol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		
LI6 cynhyrchu cylched olau a phŵer trydanol syml yn ôl safonau cyfredol y diwydiant [MC1, DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]	T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda goddefiannau derbyniol a hyd y cebl yn syth ac yn dwt.	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI7 arddangos cyflawniad diogel gosodiadau trydanol trwy brofi cylchedau trydanol yn ôl safonau cyfredol y diwydiant.</p> <p>[DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 20: Archwilio Gweithrediadau Plastro a Leinin Sych

Cod yr uned:	D/600/0083
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio offer llaw plastro yn ddiogel ac i ddeall y defnyddiau a'r technegau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r sgil hwn.

Crynodeb o'r uned

Mae'r term cyfunol 'plastro a leinin sych' yn cwmpasu ystod o sgiliau gwahanol sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr medrus yn y diwydiant adeiladu i ddarparu arwyneb gorffenedig i'w addurno'n derfynol. Mae plastro yn gofyn am lawer o ymarfer er mwyn datblygu'r technegau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu arwyneb gorffenedig. Mae plastro yn sgil technegol iawn yn defnyddio trywel llaw y mae'n rhaid ei feistroli er mwyn creu gorffeniad derbyniol. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar archwilio'r sgiliau a'r defnyddiau sylfaenol sydd ynghlwm wrth blastro a leinin sych.

Mae gwaith plastro ymhlith y crefftau llaw hynaf a ddefnyddir o ran gweithrediadau adeiladu a'r dystiolaeth gynharaf yn dangos bod anheddau dynion cyntefig wedi'u codi mewn dull syml gyda ffyn ac wedi'u plastro â llaid. Mae'r dull adeiladu hwn i'w weld o hyd mewn rhannau o'r byd datblygol gan ei fod yn rhoi cysgod effeithiol iawn rhag yr elfennau. Mae'r pyramidiau yn yr Aifft yn cynnwys gwaith plastro a wnaed o leiaf bedair mil o flynyddoedd yn ôl, mwy na thebyg yn gynharach o lawer ac eto mae'n galed ac yn wydn o hyd.

Mae gwaith plastro'n cyfeirio at adeiladu neu addurniad a wneir â phlastr, fel haen o blastr ar wal fewnol neu fowldinau addurnol plastr ar nenfydau neu waliau. Mae'r broses o greu gwaith plastro, a elwir yn blastro, yn cael ei defnyddio wrth godi adeiladau ers canrifoedd. Gosod leinin sych yw'r broses o ddefnyddio leininau bwrdd plastr wedi'u cysylltu â chefnidiroedd brics neu flociau traddodiadol ac mae'n grefft sych, sef y rheswm am yr enw leinin sych. Gyda'r dechneg hon, mae'r uniadau yn y byrddau'n cael eu tapio a'u huniadu.

Mae'r uned hon yn cyflwyno i'r dysgwyr yr offer llaw, y cyfarpar a'r sgiliau crefft sylfaenol sydd eu hangen i hoelio parwydydd a defnyddio cotiau plastr. Hefyd, mae'n cyflwyno dysgwyr i ddefnyddiau fel plastr gypswm, tywod a sment a chymysgeddau tywod a chalch. Mae'r pwyslais ar ddethol offer a chyfarpar priodol yn gywir a'u defnyddio'n ddiogel.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau plastro a leinin sych
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau plastro a leinin sych
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau plastro a leinin sych.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau plastro a leinin sych

Offer llaw: hawg; trywel plastro; trywel medryddu; trywel cegsgwar; arnofyn plastig; cyllell Stanley; cymysgydd llaw; min pluen; derbi; brwsh gwlyb; crafwr; twb cymysgu; snipiau; tâp mesur; morthwyl deuben; rhaw gymysgu; snipiau tun; morthwyl crafanc; lefel wirod

Cyfarpar: llwyfannau mynediad lefel isel; grisiau camu; ysgol; sgaffaldau tŵr; offer cymysgu trydanol

Defnyddiau: bwrdd plastr; tywod/calch/sment; plastr brown; bondio; plastr gorffen; sgrim; glain ongl; hoelion

2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau plastro a leinin sych

Peryglon: nodi peryglon; Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH); risgiau; llwch; cemegau; defnyddio offer; trydan

Iechyd, diogelwch a lles: cadw'r gweithle'n lân ac yn daclus; nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â thasgau penodol; defnyddio arferion diogel i leihau risg peryglon a nodwyd

Cyfarpar diogelu personol: diogelu'r llygaid; mwgwd llwch; esgidiau diogelwch; diogelu'r pengliniau; het galed, menig lle y bo'n briodol; oferôls; eli rhwystrol

3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel wrth gyflawni tasgau plastro a leinin sych

Defnydd: leinin sych ar waliau stydennog; dotio a dabio; gorffeniadau gwlyb; rendro a gosod

Defnyddiau cymysgu: cymysgeddau cymhareb safonol; cymysgu rendrad tywod a sment (gellir defnyddio calch fel amnewidyn) cymysgu gorffeniadau cot sgim plastr

Gorffeniadau gwlyb: gosod rendrad a sgim plastr i waliau bloc hyd at safon resymol

Gorffeniadau sych: mesur, torri a gosod bwrdd plastr i ardaloedd penodol, uniadau sgim a rhoi cot orffeniad i gefndir priodol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer llaw a ddefnyddir i gyflawni tasgau plastro a leinin sych [YA1, YA2, YA3, YA4]	T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 dethol yr offer llaw sydd eu hangen er mwyn cyflawni tasgau plastro a leinin sych [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau plastro a leinin sych [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI4 dethol y defnyddiau a ddefnyddir i gyflawni tasgau plastro a leinin sych [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI5 nodi'r gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau plastro a leinin sych [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]	T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i gyflawni tasgau plastro a leinin sych	
LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel i'w defnyddio mewn tasgau plastro a leinin sych penodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI7 rhoi rendrad a gorffeniadau sgim ar waliau sydd wedi'u paratoi [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda lleiafswm o farciau trywel ar orffeniad gwlyb a gyda gleiniau ongl wedi'u mesur, torri a'u gosod i gornel bwrdd plastr allanol.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig heb farciau trywel a phob glain ongl yn blwm.</p>
<p>LI8 rhoi gorffeniadau leinin sych bwrdd plastr ar waliau. [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 21: Archwilio Gweithrediadau Toi

Cod yr uned: H/600/0084

FfCCH Lefel 2: BTEC Cyntaf

Gwerth credydau: 5

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn archwilio'r offer, y cyfarpar a'r technegau gweithio a ddefnyddir i gyflawni tasgau toi ac mae'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r technegau hyn i osod teils plaen ar arwyneb to ar oledd.

Cyflwyniad i'r uned

Mae galwedigaethau toi'n bwysig yn y diwydiant adeiladu. Mae'r galwedigaethau hyn yn cynnwys asffaltio mastig, toi bitwmen, toi gosod hylif, toi un haen a thoi llechi a theils. Mae'r uned hon yn ymdrin â'r offer a'r defnyddiau a ddefnyddir i osod llechi a theils yn unig ac mae'r dasg ymarferol yn canolbwyntio ar baratoi to ar oledd i dderbyn teils plaen a gosod teils plaen ar yr arwyneb hwnnw.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr offer llaw, y cyfarpar mynediad, y cyfarpar diogelu personol a'r technegau gweithio diogel i gyflawni gweithrediadau toi.

Pwysleisir yn gryf nodi, dethol a defnyddio'n gywir yr offer llaw a'r defnyddiau cywir sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwaith toi.

Mae'r uned yn mynd i'r afael â'r materion iechyd, diogelwch a lles i'w hystyried wrth ddefnyddio sgiliau toi i osod llechi a theils. Rhoddir sylw penodol i faterion yn ymwneud â gweithio ar uchder.

Mae'r uned yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddeall y gofynion o ran defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel gan gynnwys ysgolion ymestyn, tyrau sgaffaldau symudol a llwyfannau gweithio dyrchafedig symudol.

Bydd gan ddysgwyr y cyfle i baratoi arwyneb to ar oledd i dderbyn teils plaen ac wedyn gosod teils plaen ar yr arwyneb hwnnw.

Hefyd, bydd yr uned hon yn rhoi i'r dysgwyr eu profiad cyntaf o'r sgiliau ymarferol a gysylltir â chyflawni tasgau toi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth swydd sydd ei hangen i fod yn greiddiol i sgiliau ymarferol o'r fath.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau toi
- 2 Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau toi penodol
- 3 Gallu defnyddio arferion gweithio diogel i osod teils to plaen ar arwyneb to ar oledd.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau toi**

Offer llaw: morthwyl crafanc; torrwr teils; torrwr llechi; tâp mesur; trywel; naddwr plwm; torwyr tanfantell

Defnyddiau: gosodiadau a hoelion teils plaen; bondo, teilsen a hanner; estyll pren meddal 38 mm x 25 mm; teils ceramig plaen; llechi; tywod a sment; tanfantell

2 **Deall y materion iechyd, diogelwch a lles pwysig a gysylltir â thasgau toi penodol**

Cyfarpar diogelu personol: hetiau caled; esgidiau diogelwch; menig diogelwch; goglau; clustgapiau a chyfarpar diogelu personol arall fel bo'n briodol

Cyfarpar mynediad: ysgolion ymestyn; tyrau sgaffaldau symudol; llwyfannau gweithio dyrchafedig symudol; gwirio, rhoi at ei gilydd, defnyddio, datgysylltu a storio'n ddiogel

Gweithio ar uchder: peryglon a gysylltir â gweithio mewn amodau rhewllyd, glawog a gwyntog; cwmpo o doeon, trwy fylchau mewn toeon a thrwy ddefnyddiau to bregus; yr angen i wisgo gwregysau diogelwch, harneisiau diogelwch ac esgidiau gwrth-lithr; defnyddio amddiffyniad rhag yr ymyl wrth weithio ar doeon ar oledd; defnyddio llithrennau gwared amgaeedig i ddiogelu pobl sy'n gweithio oddi tanodd

Peryglon: cwmpo o doeon wrth esgyn a disgyn; cael ei fwrw gan elfennau toi yn cwmpo; sioc drydan a achosir gan gyswllt â chyfarpar diffygiol; archollion a achosir gan ymylon miniog ac offer torri; anafiadau a achosir gan rwbél yn disgyn

3 **Gallu defnyddio arferion gweithio diogel i osod teils to plaen ar arwyneb to ar oledd**

Arferion gwaith diogel: yn cael eu defnyddio i osod haen waelodol; gosod estyll i'r to; gosod teils plaen wrth estyll

Gosod haen waelodol; ee ffelt byrddau nenfwd, ffelt toi

Gosod estyll i'r to: estyll pren meddal 38 mm x 20 mm, bylchu i gydweddu â'r teils a ddefnyddir

Gosod teils plaen wrth estyll: yn ôl manyleb benodol

Manyleb: arwynebedd lleiaf 3 m²; codiad to lleiaf 30°; haen waelodol ac estyll fel sy'n briodol; gosod astell bondo a chwrs cyntaf ar fargodion; cysylltu teils plaen i ffurfio llinell gyfwyneb â'r bondo; ffurfio hanner bond wrth yr ymylon; ffurfio tanfantell wrth y bondoeau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi'r offer llaw a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau toi [YA1, YA2, YA3, YA4]	T1 esbonio'r defnydd diogel o offer llaw a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles	
LI2 dethol yr offer llaw a'r defnyddiau sydd eu hangen i gyflawni tasgau toi penodol [YA1, YA2, YA3, YA4]		
LI3 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau toi [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]	T2 esbonio defnyddio cyfarpar mynediad, ei roi at ei gilydd, ei ddatgysylltu a'i storio'n ddiogel	
LI4 esbonio dethol cyfarpar diogelu personol, cyfarpar mynediad a thechnegau gweithio sy'n briodol i dasg toi benodol [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		
LI5 nodi peryglon a gysylltir â gweithio ar uchder [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		
LI6 esbonio'r mesurau a gymerir i reoli'r risgiau a gysylltir â gweithio ar uchder [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI7 gosod haen waelodol ar adeiledd to ar oledd [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]	T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda gorffeniad to dwrglos a phob teilsen wedi'i gosod yn ôl y lap a'r medrydd cywir	Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig gyda gorffeniad to dwrglos, pob teilsen wedi'i gosod yn ôl y lap a'r medrydd cywir, hanner bond wedi'i ffurfio ar bob ymyl a thanfantell wrth y bondoeau.
LI8 gosod estyll teils ar y to [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]		
LI9 gosod teils to plaen ar yr estyll. [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 22: Archwilio Teilsio Wal a Theilsio Llawr

Cod yr uned:	F/600/0089
FfCCH Lefel 2:	BTEC Cyntaf
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r offer a'r defnyddiau a ddefnyddir wrth deilsio wal a llawr ac mae'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio arferion gweithio diogel i gyflawni tasgau teilsio wal a llawr priodol.

Cyflwyniad i'r uned

Fel arfer mae teilsio wal a theilsio llawr yn cael eu gwneud gan is-gontractwyr arbenigol. Mae'r is-gontractwyr hyn yn cyflogi teilsywyr medrus a all wneud amrediad eang o dasgau o gawodydd domestig i byllau nofio cyhoeddus. Gall teilsywyr medrus weithio gydag amrywiaeth o fathau gwahanol o deils a gallant gynhyrchu dyluniadau deniadol i fodloni anghenion cleientiaid unigol.

Mae teilsio yn broses orffennu sy'n golygu gweithio'n agos gyda chrefftau eraill yn y diwydiant adeiladu ac fel arfer mae'n cael ei wneud tua diwedd y broses adeiladu. Felly, mae'n rhaid i ansawdd y gwaith a wneir fod yn uchel gan fod y cynnyrch terfynol yn weladwy dros ben.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr offer llaw, yr offer pŵer cludadwy, y cyfarpar diogelu personol a'r technegau gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr. Pwysleisir yn gryf nodi, dethol a defnyddio'n gywir yr offer llaw a'r offer pŵer sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r gwaith gosod. Bydd dysgwyr yn archwilio'r technegau a ddefnyddir i osod teilsio'n gywir o fanylebau a lluniadau a gyflenwir. Hefyd, byddant yn ymchwilio i'r materion iechyd, diogelwch a lles i'w hystyried wrth gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod yr offer llaw, yr offer pŵer cludadwy a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr
- 2 Deall y materion iechyd a diogelwch pwysig a gysylltir â thasgau teilsio wal a theilsio llawr
- 3 Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i baratoi, gosod a chyflawni tasgau teilsio.

Cynnwys yr uned

1 **Gwybod yr offer llaw, yr offer pŵer cludadwy a'r defnyddiau a ddefnyddir yn gyffredin i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr**

Offer llaw: sgrafell; torrwr teils; dril teils; lledaenydd adlyn; erfyn growthio; sbwng

Offer pŵer; sandiwr pŵer; torrwr teils; cymysgydd padl

Defnyddiau paratoi arwyneb: ee papur sgraffinio, llenwad, estyll, paent preimio arwyneb, selwyr

Teils: wal a llawr, ee ceramig, porslen, chwarel, llechi, maen, concrit, terazzo, marmor, gwydr, metel

Adlynon: ee adlynon wal a llawr, adlynon hyblyg ar gyfer cefndiroedd gwahanol, wedi'u cymysgu'n barod, powdr sych.

Growth: ee wedi'i gymysgu'n barod, powdr sych, lliw, adlyn a growth wedi'u cyfuno

2 **Deall y materion iechyd a diogelwch pwysig a gysylltir â thasgau teilsio wal a theilsio llawr**

Cyfarpar diogelu personol: menig; hetiau caled; bŵts ac esgidiau diogelwch; sbectol neu goglau diogelwch; diogelwyr clustiau; mygydau llwch; eli rhwystrol; oferôls

Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH): ee taflenni data diogelwch, labeli gwneuthurwyr, cyfarwyddiadau gwneuthurwyr, nodi peryglon, risgiau i iechyd, mesurau rheoli

Iechyd, diogelwch a lles: yr offer cywir ar gyfer y dasg gywir; yr angen i gadw'r ardal waith yn lân ac yn daclus; nodi peryglon a mesurau rheoli i leihau risgiau; systemau gweithio diogel ee paratoi arwynebau a defnyddiau i'w cymhwyso, trafod â llaw, gwaredu defnyddiau, gweithio ar uchder, glanhau, storio, defnyddio a chynnal a chadw offer.

Peryglon: cwmpo o uchder; llithro, baglu a chwmpo; archollion ac anafiadau a achosir gan offer a chyfarpar miniog; anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi a symud llwythi trwm

3 **Gallu cymhwyso arferion gweithio diogel i baratoi, gosod a chyflawni tasgau teilsio**

Arferion gwaith diogel: amlinellu, defnyddio adlynon, teilsio

Amlinellu: defnyddio lefel wirod; llinyn plwm; llinyn sialc; pensil; tâp mesur

Defnyddio adlyn: defnyddio adlyn a gymysgwyd ymlaen llaw; cymysgu adlyn; lledaenu adlyn; gwirio ansawdd

Teilsio: gwahanyddion teils; cymhwyso llorweddol a fertigol; amser sychu; growthio; llathru

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI1 nodi'r offer llaw a'r offer pŵer cludadwy a ddefnyddir i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr [MC2, MC5, DM4, DM5, GT4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>	<p>T1 cyfiawnhau'r defnydd diogel o offer llaw, offer pŵer cludadwy a defnyddiau i leihau risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI2 dethol yr offer llaw a'r offer pŵer cludadwy sydd eu hangen i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		
<p>LI3 nodi'r defnyddiau a ddefnyddir wrth deilsio wal a theilsio llawr [YA1, YA2, YA4, YA6, MC1, MC2, MC4, MC6, DM5]</p>		
<p>LI4 dethol y defnyddiau y mae angen eu defnyddio mewn tasgau teilsio wal a theilsio llawr penodol [MC2, MC5, DM3, DM4, DM5, GW4, HR2, HR6, CE3, CE4]</p>		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p>LI5 nodi'r cyfarpar diogelu personol ac arferion gweithio diogel a ddefnyddir i gyflawni tasgau teilsio wal a theilsio llawr [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>	<p>T2 cyfiawnhau'r defnydd o gyfarpar diogelu personol priodol ac arferion gweithio diogel i leihau'r risgiau iechyd, diogelwch a lles</p>	
<p>LI6 esbonio'r detholiad o gyfarpar diogelu personol a thechnegau gweithio i'w defnyddio mewn tasgau teilsio wal a theilsio llawr [YA1, YA2, YA3, YA4, HR4, HR6]</p>		
<p>LI7 cynhyrchu 1 m² o deilsio wal (llawr) gorffenedig gan gynnwys growth gyda gwedd sy'n gyffredinol ddestlus [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]</p>	<p>T3 cynhyrchu gwaith gorffenedig, gyda theils wedi'u gosod gyda haenau llawn a goddefiant ar y cyd ± 3 mm, gan dorri'r trim o fewn 3 mm a growth unffurf gyda gwedd sy'n gyffredinol destlus.</p>	<p>Rh1 cynhyrchu gwaith gorffenedig, gyda theils wedi'u gosod gyda haenau llawn a goddefiant ar y cyd ± 2 mm, gan dorri'r trim o fewn 2 mm a growth llawn ac unffurf gyda gwedd sy'n ddestlus trwyddi draw.</p>
<p>LI8 cynhyrchu 1 m² o deilsio wal (llawr) gorffenedig gan gynnwys growth gyda gwedd sy'n gyffredinol ddestlus. [DM1, DM2, DM3, DM4, GT4, HR2, HR3]</p>		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y cromfachau sgwâr, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol